# ATODIAD 3

# Dadansoddiad ac Ymateb Y Cyngor i Sylwadau o’r Ymgynghoriad Statudol

# Atodiad 3.1

# Dadansoddiad ac Ymatebion i Gohebiaeth Yr Ymgynghoriad Statudol

**Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol ar y Cynnig i Gau Ysgolion Brithdir, Dinas Mawddwy, Ieuan Gwynedd a Machreth a Sefydlu Ysgol Ardal Aml-Safle ar Safleoedd Presennol Brithdir a Dinas Mawddwy**

**Derbyniwyd 65 ymateb ysgrifenedig:**

51 Llythyr (1 Dwyieithog, 38 Cymraeg, 12 Saesneg)
13 E-bost (10 Cymraeg, 3 Saesneg)
1 Deiseb gyda 208 o enwau (wedi cynnwys yn y pecyn ymatebion i'r Cynghorwyr)

Derbyniwyd ymatebion gan disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni Ysgol Brithdir, llywodraethwr Ysgol Dinas Mawddwy, staff, llywodraethwyr a rhieni Ysgol Ieuan Gwynedd, staff, llywodraethwyr a rhieni Ysgol Machreth, Bwrdd Addysg Esgobaeth Bangor, Bwrdd Yr Iaith Gymraeg, Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain yn ogystal a mudiadau a chymdeithasau eraill.

| Cod Sylwad | Sylwadau | Nifer ymatebion cynnwys y sylwad | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 1 | **Addysg** | | |
| 1.1 | Hanfodol bod ardal yma yn Y Gader yn cynnig addysg wledig / Bydd yr ysgol ardal yn cynnig adnodd ardderchog i blant yr ardal / Cynnig yn cryfhau addysg yr ardal / Cryfhau profiadau addysgol a chymdeithasol y disgyblion a gwella adnoddau'r amgylchfyd / Bydd y datblygiad sy'n cael ei argymell yn sicrhau dyfodol i addysg wledig yn yr ardal. | 5 | Yn ystod y trafodaethau wrth ddatblygu'r cynigion hyn, daeth i'r amlwg fod yr ardal yn awyddus i sicrhau darpariaeth addysg wledig. Un o amcanion y cynnig yma yw sicrhau darpariaeth addysg wledig yr ardal. |
| 1.2 | Mae'r cynnig yn gwella niferoedd disgyblion ym mhob blwyddyn bydd yn ehangu cyfleoedd disgyblion | 1 | Maint dosbarthiadau'r pedair ysgol ar gyfartaledd heddiw yw 12, gydag amrediad niferoedd mewn dosbarth rhwng 4 ag 27.<br><br>Mae'r strategaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 2 Ebrill 2009 yn nodi uchelgais i sicrhau dosbarthiadau rhwng 12-25 o ddisgyblion. O wireddu'r argymhellion, bydd maint dosbarthiadau'r Ysgol Ardal Aml-Safle ar gyfartaledd oddeutu 20. Rhagwelir mai cyfartaledd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | maint dosbarthiadau prif safle'r ysgol fydd 25, tra bydd maint dosbarthiadau'r ail safle yn oddeutu 12. O wireddu'r cynnig byddai gan yr Ysgol Ardal oddeutu 96 o ddisgyblion, gydag oddeutu 73 o ddisgyblion ar un safle ac oddeutu 23 ar safle Dinas Mawddwy. |
| 1.3 | Amgylchedd dysgu ffantastig yn Ysgol Brithdir / Addysg Ysgol Brithdir o'r safon uchaf | 3 | |
| 1.4 | Ysgolion bach gwledig yn fantais amgylcheddol a cymdeithasol i blant. Yn anffodus oherwydd hinsawdd ariannol nid yw'n bosib ariannu nifer o ysgolion bach felly mae sefydlu un ysgol wledig ychydig fwy yn gynnig realistig / Ysgol fach deuluol yn helpu plant setlo'n gyflym a dysgu'n well | 2 | |
| 1.5 | Pwysig i ddisgyblion gallu cadw cysylltiad gyda holl blant yr ysgol, gwahanol oedrannau'n cael amser chwarae yr un pryd | 1 | Mae llawer o rinweddau da yn perthyn i'r ysgolion presennol. Bydd yn her i'r corff llywodraethol/pennaeth/ysgol ddatblygu ar y rhinweddau hyn o fewn y trefniant newydd. |
| 1.6 | Rhan bwysig o ysgol yw ffrindiau a disgyblion yn edrych ymlaen at greu ffrindiau newydd / Braf cael mwy o blant yn yr ysgol i wneud timau pelrwyd, peldroed a rygbi a gallu cael côr a steddfod yr urdd | 1 | |
| 1.7 | Gobaith bydd yn gallu cadw cymeriad ysgol Brithdir yn yr ysgol ardal / Cael awyrgylch hapus a chyfeillgar yn bwysig iawn | 1 | |
| 1.8 | Athrawon da yn hanfodol bwysig mewn ysgol | 1 | |
| 1.9 | Addysg arbennig - nodwyd yn y ddogfen ymgynghorol bod darpariaeth i blant ag anableddau'n cael ei gynnig yn Ysgol Gynradd Dolgellau. Gwir felly na fydd opsiwn addysg wledig Gymraeg ar gael i blant ag anableddau? Ysgol Ieuan Gwynedd wedi ei dynodi ar gyfer plant anghenion arbennig. / Ysgol Ieuan Gwynedd yw'r unig Ysgol yn ddynodedig i ddisgyblion AAA ac yn cydymffurfio a gofynion DDA, safle'n mwy nag addas oherwydd bod y dirwedd yn wastad / Estyniad newydd gydag ystafell therapi, cawod, toiled anabl a 'hoist' a gwely newid a gofod dysgu allanol / Estyniad yn rhoi cynnig y cyfle i integreiddio'n rhwydd gyda'r prif lif / Siom bod darpariaeth AAA ddim yn cael ei gynnwys yn y datblygiad | 5 | Dynodir ysgolion cynradd o fewn dalgylchoedd ysgolion uwchradd ble darperir cyfleusterau ar gyfer plant ag anghenion arbennig. Dynodwyd Ysgol Ieuan Gwynedd o fewn yr ardal yma. Cyn hyn roedd rhaid i ddisgyblion deithio'n all-Sirol. Bydd yr Ysgol Ardal newydd yn cael ei gynllunio ar gyfer safonau Deddf Hawliau Anabledd 'DDA' a bydd Ysgol Gynradd Dolgellau yn cael ei dynodi ar gyfer darparu addysg arbennig yr ardal. Argymhellwyd eisoes fod buddsoddiad sylweddol wedi ei benodi ar gyfer uwchraddio ac addasu Ysgol Gynradd Dolgellau, felly bydd arbenigedd yn y dalgylch. |

<table>
<tr><td></td><td>newydd gyda'r bwriad o ddileu'r opsiwn gwledig yma. Ble mae hawliau cyfle cyfartal i'r unigolion yma a'u teuluoedd? Mae cynnig darpariaeth addysg arbennig mewn ysgol prif ffrwd yn sicrhau fod y disgyblion yn datblygu i fod yn aelodau sensitif o gymdeithas ac yn magu empathi naturiol.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>1.10</td><td>Safon uchel ofnadwy o addysg yn Ysgol Machreth / Ni ddylai disgyblion Ysgol Machreth cael eu gwrthod o addysg yn eu hysgol bentref / Cau Ysgol Machreth yn cael effaith negyddol ar addysg y disgyblion / Canlyniad Estyn yn dyst i hyn / Dim yn credu fod y cynnig er budd addysg a lles y plant.</td><td>8</td><td rowspan="2">Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw bryderon ynglŷn ag ansawdd addysg yn yr ysgolion, canlyniadau diwethaf arolygon Estyn yn dystiolaeth o hyn.
<table>
<tr><th></th><th>Ysgol Brithdir</th><th>Ysgol Dinas Mawddwy</th><th>Ysgol Ieuan Gwynedd</th><th>Ysgol Machreth</th></tr>
<tr><td>Dyddiad Arolwg</td><td>Ionawr 2008</td><td>Mai 2010</td><td>Chwefror 2007</td><td>Chwefror 2010</td></tr>
<tr><td>Manylion Adroddiadau Arolygu</td><td>3 x Gradd 1<br>4 x Gradd 2</td><td>7 x Gradd 2</td><td>1 x Gradd 1<br>6 x Gradd 2</td><td>5 x Gradd 1<br>2 x Gradd 2</td></tr>
</table>
Allwedd:<br>Canlyniadau Estyn – Gradd 1 = da gyda nodweddion rhagorol<br>Gradd 2 = nodweddion da a dim diffygion pwysig<br>Mae'r Awdurdod o'r farn y byddai'r ddarpariaeth addysgol oddi fewn y cynnig yma yn cynnal ac mewn rhai agweddau yn gwella ansawdd addysg a'i gynigir i ddisgyblion fyddai'n mynychu'r ysgol ardal. Byddai cyfle i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau mwy sylweddol o'u cyfoedion, gyda nifer fwy o athrawon all rannu a rhoi o'u harbenigedd. Yn wir wrth fynd ati i benodi staff i'r sefydliad newydd mae'n rhan o bolisi cyflogaeth amgen yr Awdurdod (sydd ynghlwm a chynigion ad-drefnu ysgolion fel hyn) i warantu cyfweliadau i aelodau o staff sy'n cael eu cyflogi yn yr ysgolion presennol. Mae'r Awdurdod yn rhagweld bydd gan lywodraethwr y sefydliad newydd ddewis o blith staff addysgu a chefnogol gorau er mwyn ymuno â'r tîm ysgol i barhau i gynnal safonau uchel.</td></tr>
<tr><td>1.11</td><td>Mae rhieni fel arfer yn dewis ysgol sy'n cynnig y safon addysg gorau.</td><td>1</td></tr>
<tr><td>1.12</td><td>Does dim na fedrwn ei gynnig er mwyn cwrdd y gofynion addysg ar gyfer yr 21g / Mae Ysgol Machreth yn meddu ar nifer o bethau rydych yn nodi fel sail penderfyniadau; Ansawdd yr addysgu, Arweinyddiaeth a staffio; Cymuned ac Iaith</td><td>1</td><td>Mae'r pwyntiau yn y sylw yma yn cael ei drin yn weddill y ddogfen dan y penawdau perthnasol. Mae'r Awdurdod yn cytuno gyda dyfarniadau arolygiad Estyn dan yr agweddau perthnasol yn y sylw hwn yn enwedig o ran ansawdd yr addysgu/dysgu a'r arweinyddiaeth. Mae'r cynnig yn amlygu y byddai'r un rhinweddau llwyddiannus yma hefyd drwy'r Ysgol Ardal arfaethedig.<br><br>Mae'r Awdurdod o'r farn y byddai'r ddarpariaeth addysgol oddi fewn y cynnig yma yn cynnal ac mewn rhai agweddau yn gwella ansawdd addysg a'i gynigir i ddisgyblion fyddai'n mynychu'r ysgol ardal. Byddai cyfle i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau mwy sylweddol o'u cyfoedion, gyda nifer fwy o athrawon all rannu a rhoi o'u harbenigedd. Yn wir</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | wrth fynd ati i benodi staff i'r sefydliad newydd mae'n rhan o bolisi cyflogaeth amgen yr Awdurdod (sydd ynghlwm a chynigion ad-drefnu ysgolion fel hyn) i warantu cyfweliadau i aelodau o staff sydd yn bodoli yn yr ysgolion presennol. Mae'r Awdurdod yn rhagweld bydd gan lywodraethwr y sefydliad newydd ddewis o blith staff addysgu a chefnogol gorau er mwyn ymuno a'r tîm ysgol i barhau i gynnal safonau uchel. |
| 1.13 | Mae disgyblion Cyfnod Sylfaen a CA2 yn dod ynghyd ag ysgol arall. Pam na ellir datblygu trefniant megis Corris a Pennal? | 1 | Deallir fod trefniant o gydweithio agos wedi cychwyn rhwng Ysgolion Ieuan Gwynedd a Machreth ers i'r cynnig ymgynghorir arno gael ei gyflwyno. Mae'r Cyngor yn croesawu'r trefniant hwn o fewn y cyfnod trawsnewidiol, yn enwedig gan fod niferoedd y ddwy ysgol mor isel.<br><br>Cyfeirir at drefniant ffederaleiddio sydd wedi ei ddatblygu rhwng Ysgolion Corris a Pennal. Mae'r sefyllfa yn yr ardal honno yn wahanol lle mae trefniant ffedereiddio yn fwy tebygol o ddiwallu anghenion. Roedd traddodiad o weithio rhwng y ddwy ysgol, a hefyd mae niferoedd uwch o ddisgyblion yn y ddwy ysgol. Ond y gwahaniaeth amlycaf yw'r pellter teithio y byddai'n rhaid i ddisgyblion ymgymryd ag o i ysgol arall o fewn y Sir yn achos y ddwy ysgol hynny. Nid oedd opsiynau clir eraill yn yr achos hynny oedd yn cwrdd â Strategaeth y Cyngor. |
| 1.14 | Mae safon dda o addysg yn Llanfachreth ac wedi cael adroddiadau ESTYN rhagorol / Bydd angen parhau â'r safon hyn yn yr ysgol newydd | 4 | Mae'r Cyngor yn cydnabod fod safon yr addysg ymhob un o'r ysgolion yn gadarn iawn. Bydd hyn yn fanteisiol iawn i'r corff llywodraethu fydd yn penodi ar gyfer yr Ysgol Ardal arfaethedig.<br><br>Mae'r Awdurdod o'r farn y byddai'r ddarpariaeth addysgol oddi fewn y cynnig yma yn cynnal ac mewn rhai agweddau yn gwella ansawdd addysg a gynigir i ddisgyblion fyddai'n mynychu'r ysgol ardal. Byddai cyfle i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau mwy sylweddol o'u cyfoedion, gyda nifer fwy o athrawon all rannu a rhoi o'u harbenigedd. Yn wir wrth fynd ati i benodi staff i'r sefydliad newydd mae'n rhan o bolisi cyflogaeth amgen yr Awdurdod (sydd ynghlwm a chynigion ad-drefnu ysgolion fel hyn) i warantu cyfweliadau i aelodau o staff sydd yn bodoli yn yr ysgolion presennol. Mae'r Awdurdod yn rhagweld bydd gan lywodraethwr y sefydliad newydd ddewis o blith staff addysgu a chefnogol gorau er mwyn ymuno a'r tîm ysgol i barhau i gynnal safonau uchel. |
| 1.15 | Pam cynnig darpariaeth addysg wledig neu drefol i blant yn yr ardal ond cyfyngu'r dewis yma i blant sydd ag anghenion arbennig? Mae addasiad newydd ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig eisoes yn bodoli ar safle Rhydymain sydd hefyd yn addas ar gyfer | 2 | Mae parhau i gynnig darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn nodwedd bwysig o fewn y cynnig yma. Mae cyfleusterau ac arbenigedd sydd yn bodoli eisoes ar gael yn Ysgol Gynradd Dolgellau. Er hynny, mae'n fwriad gan y Cyngor wneud buddsoddiad sylweddol er mwyn datblygu ymhellach yr agwedd yma ar safle Ysgol Gynradd Dolgellau (wedi ei gytuno yng nghyfarfod y Cyngor Llawn 14/07/2011). Byddai datblygiad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | disgyblion mewn cadair olwyn. Mae'r plant yma eisoes yn teithio dros 25 munud. | | sylweddol o'r math yma ynghyd a chanoli arbenigedd yno yn debyg o gynnal os nad gwella'r ddarpariaeth sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Ieuan Gwynedd ar hyn o bryd.<br>Er gwybodaeth, byddai'r Ysgol Ardal arfaethedig hefyd yn addas ar gyfer derbyn disgyblion gydag anableddau (e.e. mewn cadair olwyn fel y sylwad). |
| 1.16 | Dyhead am gael ysgol fydd yn rhagori ar yr hyn sydd eisoes yn bodoli yn ysgol Ieuan Gwynedd. Dim yn credu y bydd y datblygiad ym Mrithdir yn cyflawni'r amcanion yma pan fo nodweddion safle Rhydymain yn amlwg gryfach. | 1 | Bydd yr ysgol ardal yn cael ei hadeiladu i ofynion yr 21ain Ganrif, ac felly bydd yn rhagori ar y nodweddion sy'n bodoli'n bresennol yn unrhyw un o ysgolion yr ardal. Mae tystiolaeth gan Estyn yn eu hadroddiad *"Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd", 2007*" yn amlygu'r bod adeiladau newydd neu rhai sydd wedi eu huwchraddio yn sylweddol yn cyfrannu yn arwyddocaol tuag at wella ansawdd addysgu a dysgu.<br><br>Mae'r Awdurdod o'r farn y byddai'r ddarpariaeth addysgol oddi fewn y cynnig yma yn cynnal ac mewn rhai agweddau yn gwella ansawdd addysg a gynigir i ddisgyblion fyddai'n mynychu'r ysgol ardal. Byddai cyfle i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau mwy sylweddol o'u cyfoedion, gyda nifer fwy o athrawon all rannu a rhoi o'u harbenigedd. Yn wir wrth fynd ati i benodi staff i'r sefydliad newydd mae'n rhan o bolisi cyflogaeth amgen yr Awdurdod (sydd ynghlwm a chynigion ad-drefnu ysgolion fel hyn) i warantu cyfweliadau i aelodau o staff sydd yn bodoli yn yr ysgolion presennol. Mae'r Awdurdod yn rhagweld bydd gan lywodraethwr y sefydliad newydd ddewis o blith staff addysgu a chefnogol gorau er mwyn ymuno a'r tîm ysgol i barhau i gynnal safonau uchel. |
| 1.17 | Dim gwrthwynebiad i'r egwyddor o sefydlu ysgol ardal | 1 | Drwy'r ymgynghoriad gwelwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig o sefydlu Ysgol Ardal |
| 1.18 | Dosbarthiadau bach yn fuddiol i addysg plant | 3 | Mae astudiaeth o ystod o dystiolaeth yn amlinellu'r farn gyffredinol – a gadarnhawyd ym mholisi'r Llywodraeth - fod dosbarthiadau o dros 30 o ddisgyblion yn annerbyniol i blant dan 7 oed ac yn annymunol i blant o 7-11 oed.<br><br>Ymhellach i hynny, mae ymchwil diweddar yn awgrymu y gall dosbarthiadau fod yn rhy fach. Nododd Peter Blatchford yn ei gyhoeddiad "The Class Size Debate: Is Small Better" "*…it may also be worth considering that class sizes can be too small*" gan adrodd bod athrawon wedi awgrymu "*…the dynamics of the group could become flat and some children could dominate*". |
| 1.19 | A oes tystiolaeth bod ysgol ardal yn llwyddo o ran canlyniadau addysgol a hapusrwydd plant? | 1 | Mae nifer fawr o esiamplau o lwyddiannau ysgolion ardal. Fodd bynnag, mae nifer fawr o rinweddau gyda'i gilydd yn cyfrannu tuag at wneud ysgol yn llwyddiannus a'i pheidio gan gynnwys addysgu a dysgu effeithiol, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol, addasrwydd adnoddau a chwricwlwm. Mae hyn yn wir mewn unrhyw ysgol o unrhyw faint ac o unrhyw gyfansoddiad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2** | **Cymuned** | | |
| 2.1 | Mae ysbryd cymunedol yn Ysgol Brithdir gyda llawer o bobl yn helpu gyda gweithgareddau ar ôl ysgol, clybiau a digwyddiadau codi arian / Bydd ysgol a safle yn Brithdir a Dinas Mawddwy yn ysgol a'r un naws gartrefol, deuluol a'r hyn sy'n bodoli'n barod / Plant cyfredol Brithdir yn gweithio gyda'i gilydd i greu profiad cadarnhaol | 4 | Yn ystod y trafodaethau wrth ddatblygu'r cynigion hyn, daeth i'r amlwg fod yr ardal yn awyddus i sicrhau darpariaeth addysg wledig. Mae ysgolion gwledig yn chwarae rôl o fewn eu cymuned. Mae bod mewn cymdeithas gefnogol yn galluogi i ysgolion barhau i fod yn rhan allweddol o gymdeithas.<br><br>Wrth ddatblygu Ysgol Ardal mewn unrhyw safle mae'n bwysig iawn fod cefnogaeth o'r math yma yn parhau er budd yr ysgol a'r disgyblion. Un o brif gyfrifoldebau ac amcanion yr ysgol, y pennaeth, llywodraethwyr, yr Awdurdod a thrigolion yr ardaloedd i gyd fydd sicrhau fod y math yma o gefnogaeth yn parhau er lles y disgyblion a'r ysgol.<br><br>Byddai gan yr ysgol ardal gyfle i dderbyn cefnogaeth ehangach o ardaloedd ychydig yn fwy eang ble gall llawer mwy o fudiadau ac unigolion gefnogi addysg eu disgyblion. |
| 2.2 | Ysgol Ieuan Gwynedd yn parhau i fod yn rhan o gymdeithas ddiwylliannol Gymraeg gyda nifer helaeth o fudiadau sy'n gefnogol iawn i'r ysgol a thrwy gyswllt uniongyrchol yn cyfoethogi addysg y disgyblion / Safle Rhydymain yn rhan o'r pentref tra bod safle Brithdir milltir o'r pentref / Pa ddefnydd cymunedol a ragwelir yn yr ysgol? / Os leolir yn Brithdir byddai'r staff yn ddibynnol iawn ar ewyllys da rieni i gludo plant/ Cyswllt cryf rhwng yr ysgol a'r gymuned yn Rhydymain | 6 | |
| 2.3 | Ysgolion bach yn ganolog i fywyd pob cymuned / Mesurau penodol wedi'u nodi i geisio lliniaru'r effaith negyddol ar y cymunedau hynny lle mae'r ysgolion yn cau / Bydda cau Ieuan Gwynedd yn golled enfawr i'r pentref a'r gymuned. | 4 | Mae canllawiau'r Llywodraeth (*Cylchlythyr 021/2009 Cynigion Trefniadaeth Ysgolion*) ar ad-drefnu ysgolion yn nodi ffactorau sydd angen eu hystyried wrth lunio cynigion i ad-drefnu ysgolion. Mae gwybodaeth ar y ffactorau a ystyriwyd yn nadansoddiad ystadegol o'r dalgylch ar gael ar wefan y Cyngor. Comisiynwyd astudiaeth o effaith cymunedol posib yr amryw opsiynau gan ymgynghorwyr annibynnol fel rhan o'r broses o ddatblygu cynigion. Yn ogystal, comisiynwyd asesiad o effaith economaidd i gyd-fynd â'r astudiaeth gymunedol. Gellir gweld yr adroddiadau ar wefan y Cyngor ac mae copïau ar gael i'w harchwilio fel nodir yn Atodiad 4.<br><br>Yn ystod y trafodaethau dalgylch cyhoeddwyd dadansoddiad o'r defnydd cymunedol o bob ysgol, a chyfraniad ysgolion i'w cymunedau, yn y pecyn ystadegol. Rhestrwyd hefyd adnoddau (e.e. canolfannau cymunedol, caeau chwarae ayb) o fewn pob cymuned.<br><br>Wrth edrych ar asesiad a wnaethpwyd o effaith posib nifer o'r modelau cychwynnol ystyriwyd, roedd yr asesiadau cymunedol ac economaidd fel ei gilydd yn nodi categorïau o effeithiau mathau gwahanol o fodelau. Yn gryno, yr hyn nodwyd oedd bod cau ysgolion yn yr ardaloedd gwledig mewn unrhyw fodel yn cael effaith negyddol - golygai hyn fod unrhyw |
| 2.4 | Byddai cau Ysgol Brithdir yn cael effaith negyddol ar y gymuned, falch bod y safle'n cael ei gadw, | 1 | |
| 2.5 | Bydda cau Llanfachreth yn lladd y gymuned /Os bydd Ysgol Machreth yn cau bydd y gymuned yn hollti / Teimlad cryf iawn na ddylid cau'r ysgol / Ysgol, plant, nosweithiau agored, cyfarfodydd bach, sioeau Nadolig, Cyngherddau sydd yn gwneud y gymuned a dod a phawb at ei gilydd / Amser trist iawn i rhieni, plant, teulu a gymuned Ysgol Machreth/ Unwaith bydd yr ysgol wedi cau ni fydd modd i droi'n nol. Sut bydd y gymuned yn Llanfachreth yn medru denu teuluoedd ifanc?<br>Bydd cau yr ysgol yn ergyd fawr i'r gymuned. | 9 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fodel o ysgol ardal neu fodel gydol oes yn cael effaith tebyg. Yr unig fodel na fyddai yn cael effaith negyddol - effaith niwtral, fyddai model o gydweithio golygai mewn gwirionedd na fyddai newid mewn presenoldeb ysgol o fewn pentrefi unigol.<br><br>Wrth i fodelau penodol gael eu datblygu - mireiniwyd yr asesiad ar gyfer y modelau Ysgol Ardal. Nodwyd fod cau ysgolion wrth sefydlu'r Ysgol Ardal yn mynd i gael effaith negyddol yn gymunedol ac yn economaidd yn y cymunedau hynny ble mae ysgolion yn cau. Ar y llaw arall, wrth gydnabod fod anfantais symud plant o leoliad Dinas Mawddwy yn rheolaidd, mae'r asesiad cychwynnol o fodelau â lloerennau yn nodi fod y math hwn o fodel yn llai niweidiol na chau pob safle gwledig.<br><br>Ar gyfer y cymunedau hynny ble fydd ysgol yn cau, mae'r ardrawiad yn argymell rhai mesurau i'r Cyngor eu hystyried er mwyn lliniaru'r effaith negyddol, megis:<br><br>• Sicrhau cefnogaeth i gymunedau ble mae ysgolion yn cau er mwyn ceisio cynnal sefyllfa'r cymunedau hynny.<br>• Cynnig cefnogaeth i'r cymunedau hynny iddynt fedru ystyried defnydd gorau o adeilad yr ysgol ar ôl iddi gau.<br>• Cynllunio i sicrhau fod yr Ysgol Ardal yn cynnwys pentrefi dalgylch yr ysgol mewn gweithgareddau a chynnal gweithgareddau achlysurol yn y pentrefi hynny.<br>• Cynnig darpariaeth cludiant i hwyluso cludiant plant o gymunedau yn effeithiol a diogel.<br>• Ceisio cyfyngu amser teithio plant i'r Ysgol Ardal i'r targed Sirol (30 munud) gan asesu bodlonrwydd rhieni a phlant ar y trefniadau cludo o ran prydlondeb a diogelwch.<br>• Ceisio sicrhau darpariaeth cludiant sydd yn cyd-fynd â gweithgareddau allgyrsiol fel bod modd lleihau'r angen am ofyn gan rieni i gludo plant.<br><br>Bydd angen i'r Cyngor ystyried y mesurau lliniaru hyn os penderfynir gweithredu ar y cynnig yn yr ardal. |
| 2.6 | Mae datblygiad i adeiladu tai yn Rhydymain gyda rhai ohonynt wedi eu clustnodi ble bydd Tai Clwyd yn cynorthwyo pobl i'w prynu. | I | Mae cais cynllunio wedi ei gymeradwyo ar gyfer y nifer yma, ond yn anffodus, yn ôl yr wybodaeth i law, does dim llawer o ymateb i'r angen er ymdrechion i gynnal diwrnod agored i godi ymwybyddiaeth. Mae yna ddau dŷ - sydd wedi eu codi yn wag ers 2 flynedd o leiaf. |
| 2.7 | Ysgol Glantwymyn yn Ysgol Fro a chaewyd pump o | I | Cyfeirir yma at enghraifft o Ysgol Ardal mewn Sir cyfagos. Mae enghreifftiau ble mae |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ysgolion i'w sefydlu yn 1971 (gyda chryn wrthwynebiad). Pentrefi lle caewyd ysgolion dal i fodoli a ffynnu ac ambell un dal i gynnal cyfarfodydd cystadleuol, ysgol Sul, gyrfa chwist ac ati. Mae'r cymunedau yn tynnu at ei gilydd i gefnogi naill a'r llall gyda'r plant yn mynychu'r un sefydliad cyffredin sef Ysgol Glantwymyn | | Ysgolion wedi ei cau yn y gorffennol ble mae'r cymunedau hynny yn parhau yn ffyniannus. Bydd cyfle i drigolion yr ardal ac yn wir i gorff llywodraethol yr ysgol ddatblygu perthynas weithio a sicrhau fod yr ysgol a'r gymuned fel ei gilydd yn cyfrannu tuag at fywyd y naill a'r llall. Mae ysgol Dinas Mawddwy ei hunan yn ysgol ardal pryd gauwyd ysgolion i'w chreu. Mae cymunedau Llithfaen a Caeathro yn ddwy enghraifft arall yng Ngwynedd ble caewyd ysgolion yn y gorffennol, ond ble mae bwrlwm cymunedol yn parhau. |
| 2.8 | Mae anghenion cymunedau yn adlewyrchiad fwy teg o'r sefyllfa yn hytrach na niferoedd disgyblion. | 1 | Mae Strategaeth y Cyngor yn ystyried anghenion cymunedau a niferoedd disgyblion ynghyd a nifer o ystyriaethau eraill. Mae'n briodol i'r Awdurdod ystyried y ffactorau yma law yn llaw a'i gilydd – nid oes modd ystyried rhai o'r ffactorau ar wahân heb roi ystyriaeth teg i'r holl ffactorau. |
| 2.9 | Pa mor flaenllaw ydi ysgol Brithdir mewn digwyddiadau lleol, rhanbarthol a cenedlaethol?<br>Faint o ddefnydd sy'n cael ei wneud o gyfleusterau'r gymuned gan ysgol Brithdir? | 1 | Blaenllaw. O fewn arolygiad Estyn diwethaf derbyniodd yr ysgol radd 1 sef y gradd orau bosib (da gyda nodweddion rhagorol) yng nghwestiwn allweddol 3 sef 'Pa mor dda mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach'. Mae'r ysgol yn ymwneud â nifer o ddigwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn amrywio o ran natur.<br>Aeth Estyn ymlaen i nodi *"mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eithriadol o brofiadau o ansawdd dda i ddisgyblion, gan gynnwys ymweliadau addysgol sy'n cyd-fynd a themâu tymhorol, siaradwyr sy'n ymweld, cyfleoedd chwaraeon, hyfforddiant cerddorol, cyrsiau preswyl a chyfle i ddatblygu sgiliau perfformio a chreadigol disgyblion mewn celf a cherdd drwy gystadlaethau eisteddfod yr Urdd"*<br><br>Yn ogystal mae'r adroddiad yn nodi rhagoriaeth *"Hyrwyddir eu (disgyblion) datblygiad diwylliannol ymhellach wrth iddynt gymryd rhan mewn prosiectau lleol. Drwy bynciau megis addysg grefyddol, daearyddiaeth, cerdd a chelf, datblygir eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas ac o ddiwylliannau eraill."*<br><br>Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i nodi rhagoriaeth yn y modd mae'r ysgol yn gwneud cysylltiadau da gyda cyrff yn lleol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. |
| | | | |
| **3** | **Ystadegau / Cyllid** | | |
| 3.1 | Gwarchodaeth staffio Brithdir yn £6,109 tra bod gwarchodaeth Rhydymain yn £39,908. Gwarchodaeth Rhydymain, Llanfachreth a Dinas Mawddwy yn £105,507 | 2 | Dyrennir cyfanswm o £593,916 i'r pedair ysgol yn y rhan yma o ddalgylch Y Gader yn 2011/12. Mae hyn gyfystyr â £5,883 fesul disgybl ar gyfartaledd. Mae amrediad cost y pen rhwng ysgol Brithdir o £3,910; Ysgol Machreth yn £6,861; Ysgol Dinas Mawddwy yn £6,868; ac Ysgol Ieuan Gwynedd yn £7,519. Cyfartaledd cost y pen Sirol am y cyfnod hwn yw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cost y pen sylweddol uwch na Brithdir yn y tair ysgol arall dan sylw | | £3,352.<br><br>Mae'r pedair ysgol yn yr ardal yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio sydd yn gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion. Mae cyfanswm y swm ychwanegol hwn yn £111,616. O gymharu, o wireddu'r cynnig, bydd swm ychwanegol o £69,069 i'r dyraniad arferol fel lwfans aml-safle. |
| 3.2 | Nid yw'r ddogfen ymgynghorol yn glir am costau'r cynnig, er bod ysgol ardal newydd yn cael ei gostio yn oddeutu £3.8 miliwn a'r gwaith atgyweirio ac addasu'r pedair ysgol yn £2.3 miliwn | 1 | Wrth ddatblygu'r cynnig yma a thrafod opsiynau yn y cyfarfodydd PAD, amcangyfrifwyd y byddai datblygu adeilad ysgol o'r newydd yn costio oddeutu £3.8m. Ystyriwyd yr opsiwn yma, ond penderfynwyd datblygu un o safleoedd yr ysgolion presennol oherwydd bod angen symud i gael ateb buan ar gyfer sefyllfa'r ysgolion.<br><br>O beidio gweithredu'r cynnig amcangyfrifir byddai angen gwario ar atgyweirio ac addasu ysgolion Brithdir, Dinas Mawddwy, Ieuan Gwynedd a Machreth i wella cyflwr ac addasrwydd yr adeiladau. Wrth weithredu'r cynnig a chau safle Machreth ac Ieuan Gwynedd – byddai hyn yn lleihau'r angen ac yn sicrhau buddsoddiad ar y safle a ddatblygir fel prif safle'r Ysgol Ardal ym Mrithdir.<br><br>Bydd addasu safle Brithdir yn costio oddeutu £1.65 miliwn, sydd yn cynnwys, adeilad addysgu hollol newydd, cae chwarae, man chwarae meddal, mynediad a llefydd parcio newydd, sythu ffordd tu allan i'r safle, addasu'r adeilad presennol i fod yn neuadd, gegin ac adnodd staff. Cyngor eisoes wedi ymrwymo i ariannu'r cynnig yma. |
| 3.3 | Ddylai bod ffigyrau manwl i gyfiawnhau gost £1.65miliwn a amcangyfrifir i ddatblygu safle Brithdir a gost £1.05miliwn amcangyfrifir i ddatblygu safle Ysgol Ieuan Gwynedd. O ystyried pryniant tir a'r gwaith sydd angen ei gwblhau, byddai rhywun yn disgwyl rhagor o wahaniaeth yn y costau. / Rhydymain yn wastad ac yn rhwydd i'w ddatblygu tra bod Brithdir yn lleddweddog a llawn problemau | 7 | |
| 3.4 | Datblygiad yn Brithdir llawer mwy costus na rhagdybir a ni fydd trethdalwyr yn cael gwerth am arian / Synnwyr cyffredin yn nodi ni ddylid gwario arian ychwanegol ar safle israddol yn enwedig mewn cyfnod o gynni ariannol anodd / A yw costau Brithdir yn ddigonol? | 3 | |
| 3.5 | Capasiti'r ysgol ardal, Brithdir yn dal 38 ond bydd 78 o ddisgyblion ar y prif safle. Bydd angen gofal wrth geisio esbonio buddsoddiad mewn llefydd ychwanegol ym Mrithdir tra'n cadw llefydd gwag yn Ninas Mawddwy | 1 | Bydd rhaid cynllunio'r safle i dderbyn nifer disgyblion disgwylir yn Medi 2013 (78) gyda 10% ychwanegol (yn unol a gofynion Llywodraeth Cymru). Bydd hyn yn golygu ysgol i 80-90 o ddisgyblion.<br>Ni fydd newidiadau i capasiti Dinas Mawddwy. |
| 3.6 | Mae niferoedd wedi bod yn uwch yn ysgol Machreth gyda 37 yn 1997 – mae cylch bob 10 mlynedd pryd mae'r sefyllfa yn medru newid. | 1 | Wrth ystyried y patrwm ers 1975, mae niferoedd ysgol Llanfachreth wedi amrywio. Ond, y mwyafrif fu oedd 37 yn 1997, gyda isafswm o 11 yn 1980. |

| Ysgol | 1975 | 1980 | 1985 | 1990 | 1995 | 2000 | 2005 | 2010 | 1975-2010 (newid) | 1975-2010 (% newid) | 2011 | 1975-2011 (newid) | 1975-2011 (% newid) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Brithdir | 21 | 18 | 23 | 24 | 22 | 43 | 38 | 40 | 19 | 90% | 45 | 24 | 114% |
| Dinas Mawddwy | 38 | 43 | 38 | 52 | 44 | 37 | 34 | 25 | -13 | -34% | 22 | -16 | -42% |
| Ieuan Gwynedd | 31 | 31 | 32 | 28 | 24 | 17 | 26 | 19 | -12 | -39% | 16 | -15 | -48% |
| Machreth | 17 | 11 | 18 | 25 | 32 | 27 | 26 | 22 | 5 | 29% | 16 | -1 | -16% |
| **Dalgylch Y Gader** | **475** | **458** | **481** | **459** | **478** | **436** | **419** | **386** | **-89** | -19% | *Dim ar gael* | *Dim ar gael* | *Dim ar gael* |
| **Meirionnydd** | **3,293** | **2,993** | **2,567** | **2,597** | **2,774** | **2,745** | **2,510** | **2,229** | **-1,064** | -32% | *Dim ar gael* | *Dim ar gael* | *Dim ar gael* |
| **Gwynedd** | **12,084** | **11,104** | **9,505** | **9,516** | **10,321** | **10,679** | **10,150** | **9,703** | **-2,381** | -20% | *Dim ar gael* | *Dim ar gael* | *Dim ar gael* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.7 | Byddai defnyddio'r arian fuddsoddi'r yn Safle Brithdir yn cael ei ddefnyddio yn well i wella'r safleoedd presennol ac yn cynnal model cydweithio. | 1 | Roedd cyllid yn un o'r ffactorau ystyriwyd yn ystod datblygu'r cynnig, ond mae ffactorau eraill fel addysg, lleihad mewn niferoedd a moderneiddio darpariaeth addysg wedi eu hystyried yn ogystal. |
| 3.8 | Oni bai am yr ysgol, nid yw trigolion Llanfachreth yn derbyn unrhyw fuddsoddiad arall o bwys | 1 | Bydd yr ysgol ardal arfaethedig yn darparu addysg ar gyfer cymuned Llanfachreth a'r cymunedau cyfagos. Rhaid cofio wrth gwrs fod nifer fawr o gymunedau gwledig eraill yng Ngwynedd sydd heb ysgol. |
| 3.9 | Nodwyd yn yr ymgynghoriad statudol fod 84% o blant yn byw yn nes i safle ysgol Brithdir na safle Ieuan Gwynedd. Nid yw'r ffigwr hwn yn adlewyrchiad cywir gan fod plant Dinas Mawddwy wedi eu cynnwys yn y canran yma. Ble mae anheddau'r plant? | 4 | Mae'r Awdurdod wedi cynnal astudiaeth manwl o aneddau disgyblion presennol yr ardaloedd yn 2010 ac unwaith yn rhagor yn 2011. Cyflwynwyd darlun manwl o hyn yn y Paneli Adolygu Dalgylch.<br><br>Nid yw plant Dinas Mawddwy wedi eu cynnwys yn y ffigwr 84%. Petai cynnwys niferoedd Dinas Mawddwy yn y ffigwr byddai 88% yn byw yn nes i Frithdir na Ieuan Gwynedd.<br><br>Drwy ddefnyddio'r data diweddaraf sef niferoedd Medi 2011 gwelir fod 77 o ddisgyblion yn mynychu ysgolion Ieuan Gwynedd, Brithdir a Machreth. Mae 8 o rhain yn byw yn nalgylch Machreth ac yn agosach i safle Brithdir, tra fod 27 yn byw o fewn dalgylch Brithdir a 10 yn byw o fewn dalgylch ysgol Ieuan Gwynedd. Mae 25 ohonynt yn byw o fewn dalgylch Ysgol Gynradd Dolgellau sydd eto yn agosach i Brithdir. O'r 7 arall gwelir 4 yn byw mewn llefydd eraill sy'n nes i Brithdir a 2 sy'n nes i Ieuan Gwynedd. |

**Lle mae plant Dwyrain y Gader yn byw Medi 2011**

| YSGOL | Cyfanswm plant Medi 2011 | Llanfachreth | Rhydymain | Dinas Mawddwy | Brithdir | Dolgellau | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Machreth | 16 | 7 | 0 | 0 | 1 | 7 | 1 |
| Ieuan Gwynedd | 16 | 0 | 10 | 0 | 3 | 1 | 2 |
| Dinas Mawddwy | 22 | 0 | 0 | 20 | 0 | 0 | 2 |
| Brithdir | 45 | 1 | 0 | 0 | 23 | 17 | 4 |
| **Cyfanswm** | **99** | **8** | **10** | **20** | **27** | **24** | **10** |

| All dalgylch: | Nifer | % |
|---|---|---|
| Machreth | 9 | 56% |
| Ieuan Gwynedd | 6 | 38% |
| Dinas Mawddwy | 2 | 9% |
| Brithdir | 22 | 49% |

Felly mae 12 o'r 77 yn byw yn nes i Ieuan Gwynedd a 65 yn nes i Brithdir.
Mae 12/77 yn 16%, tra fod 65/77 yn 84%.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.10 | Mae'n afresymol fod gwariant yn cael ei ystyried ar ddatblygu safle ysgol Brithdir sydd mor agos at safle'r Ysgol gydol Oes arfaethedig yn nhref Dolgellau | I | Mae safle ysgol Brithdir 2.9 milltir o safle presennol ysgol Gynradd Dolgellau. Mae safle ysgol Ieuan Gwynedd 5.7 milltir o safle presennol ysgol Gynradd Dolgellau. |
| 3.11 | Mae 40 o blant y 4 ysgol (tua 40%) yn blant all dalgylch Dolgellau a thu hwnt. | I | Mae 99 o blant yn mynych ysgolion Ieuan Gwynedd, Machreth, Brithdir a Dinas Mawddwy. Mae 8 o rhain yn byw yn nalgylch Machreth, 10 yn nalgylch Ieuan Gwynedd, 27 yn nalgylch Brithdir a 20 yn nalgylch Dinas Mawddwy. Mae 25 o'r 99 yn byw yn Nolgellau, a 9 yn byw ymhellach megis yn Arthog, Fairbourne, Talybont a'r Bala.<br>34% o'r nifer sy'n mynychu ysgolion y dalgylch sydd yn byw'n all dalgylch. |
| 3.12 | Be ydi'r gymhareb disgybl-athro fesul ysgol? | I | Gymhareb disgyblion i athrawon fel a ganlyn:<br>Ysgol Brithdir = 21:1<br>Ysgol Dinas Mawddwy = 13:1<br>Ysgol Ieuan Gwynedd = 10:1<br>Ysgol Machreth = 11:1 |
| 3.13 | Beth ydi'r rhagolygon i fwy o blant fynychu'r ysgol? | I | Nodwyd yn y ddogfen ymgynghorol statudol:<br>"Ers 1975 mae niferoedd disgyblion Ysgol Brithdir wedi cynyddu 114%, Ysgol Dinas Mawddwy wedi gostwng 42%, Ysgol Ieuan Gwynedd wedi gostwng 48% a Ysgol Machreth |

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>wedi gostwng 16%.”<br><br>Nid yw rhagamcanion yr ysgolion yn dangos newid yn y tuedd presennol:<br>
<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Gwir Nifer Medi 2008</th><th>Gwir Nifer Medi 2009</th><th>Gwir Nifer Medi 2010</th><th>Gwir Nifer Medi 2011</th><th>Rhagamcan Medi 2012</th><th>Rhagamcan Medi 2013</th><th>Gwahaniaeth rhwng Medi 2008 a Medi 2013</th><th>Gwahaniaeth %</th></tr>
<tr><td>Brithdir</td><td>37</td><td>37</td><td>40</td><td>45</td><td>45</td><td>46</td><td>+9</td><td>+24%</td></tr>
<tr><td>Dinas Mawddwy</td><td>27</td><td>24</td><td>25</td><td>22</td><td>24</td><td>20</td><td>-7</td><td>-26%</td></tr>
<tr><td>Ieuan Gwynedd</td><td>25</td><td>24</td><td>19</td><td>16</td><td>18</td><td>16</td><td>-9</td><td>-36%</td></tr>
<tr><td>Machreth</td><td>29</td><td>23</td><td>22</td><td>16</td><td>15</td><td>16</td><td>-13</td><td>-45%</td></tr>
</table></td></tr>
<tr><td>3.14</td><td>Faint o blant oed cynradd sydd yn yr ardal gyfan?</td><td>1</td><td>Mae cyfanswm o 383 o blant cynradd yn cynnwys dosbarthiadau meithrin yn nalgylch Y Gader (346 heb meithrin).</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>4</td><td>Ansawdd ac Addasrwydd Adeiladau</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>4.1</td><td>Edrych ymlaen at cael mwy o le mewn dosbarthiadau / Gobaith am ddosbarthiadau agored</td><td>2</td><td rowspan="4">Wrth ddatblygu’r cynnig yma a thrafod opsiynau yn y cyfarfodydd PAD, amcangyfrifwyd y byddai datblygu adeilad ysgol o’r newydd yn costio oddeutu £3.8m ac y byddai datblygu un o’r adeiladau presennol yn bosib o fewn cyllideb y Cyngor.<br><br>Mae strategaeth ad-drefnu yn nodi bod amgylchiadau addysgu a dysgu yn greiddiol i ddarparu addysg o’r radd flaenaf. Mae adroddiad Estyn “Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd” (2007) yn cadarnhau’r farn uchod. Noda’r adroddiad bod ysgolion oedd wedi gweld eu hadeiladau’n cael eu hadnewyddu wedi gweld gwelliant mewn cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion. Nodir bod arolygiadau Estyn o ysgolion unigol yn dangos bod ansawdd yr addysgu wedi gwella, bod morâl staff wedi codi, bod presenoldeb wedi’i gynnal ac ymddygiad wedi gwella a bod adeiladau sydd wedi eu gwella yn cynnig mwy o ddewis a darpariaeth well o ran addysg o fewn yr ysgol a gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol.<br><br>Datblygir safle Brithdir a bydd yr ystafelloedd dysgu yn cael ei hadeiladu o’r newydd mewn adeilad modern ac amgylcheddol. Bydd yn darparu amgylchedd dysgu modern, ble byddai cyfleusterau technolegol diweddaraf ar gael. Rhagwelir y bydd yr adeilad presennol yn cael ei uwchraddio a’i addasu yn neuadd bwrpasol ac yn fan bwyta.</td></tr>
<tr><td>4.2</td><td>Gobaith bydd cae chwarae, neuadd, buarth chwarae a mwy o le i chwarae yn yr ysgol ardal / Gobaith am ardaloedd gwyrdd a lle i blannu planhigion</td><td>2</td></tr>
<tr><td>4.3</td><td>Yn sgil ad-drefnu dyma gyfle euraidd i ddatblygu adeilad pwrpasol at gyflwyno cwricwlwm modern i’r ganrif yma / Adeilad fydd yn gweddu i’r ardal, ddeniadol i’r llygad, yn ateb pwrpas i’r dim ac yn gwneud defnydd llawn o dechnolegau sy’n arbed gwastraff ac yn gynaliadwy</td><td>1</td></tr>
<tr><td>4.4</td><td>Siom nad yw Ysgol Ardal hollol newydd fel Bro Dysynni yn cael ei gynnig / Gobaith am cynllun mwy uchelgeisiol ond yn sylweddoli bod newidiadau yn nhrefniadau ariannu Llywodraeth Cymru a mai hon yw’r unig ateb yn rhan yma’r dalgylch</td><td>2</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Y tu allan, rhagwelir y bydd maes parcio newydd ynghyd a mannau chwarae amrywiol, yn cynnwys maes chwarae pwrpasol. |
| | | | |
| **5** | **Cludiant a Teithio** | | |
| 5.1 | Ni fydd cynnydd mawr mewn cerbydau i Ysgol Brithdir gan y bydd bws mini yn cludo plant o Lanfachreth a Rhydymain h.y. cludiant ysgol, hyn o blaid Brithdir | 4 | Bydd cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, bydd darpariaeth i gludo disgyblion o gyfeiriad Rhydymain a Llanfachreth. Ar hyn o bryd, yn ôl y ffigyrau presennol, rhagdybir y bydd angen 2 fws bychan i gludo disgyblion o'r cyfeiriadau hyn. |
| 5.2 | Wrth ddefnyddio llwybr ffordd fyrraf Ysgol Ganllwyd yw'r agosaf i Ysgol Machreth (3milltir) a wedyn Cynradd Dolgellau (3.8milltir) ond ffordd i Dolgellau yn well na'r ffordd i Ganllwyd. Safle arfaethedig Ysgol Ardal 4.1milltir o Lanfachreth yn defnyddio lonydd cefn gul am ran helaeth o'r ffordd. I'r safle trwy Dolgellau yn 6milltir. Nid yw'n bendant bydd cwmnïau cludiant yn argymell defnyddio lonydd cefn cul rhwng Llanfachreth a Brithdir. Ymarfer da yn awgrymu dylai'r Awdurdod cludo disgyblion cynradd cyn lleied a bo angen a nid heibio ysgol cynradd eraill. | 1 | Mater i'r Corff Llywodraethol a'r Pennaeth fydd symud plant o un safle i'r llall, ond ni rhagwelir hynny yn digwydd yn rheolaidd.<br><br>Mae cynllun arfaethedig gan Lywodraeth Cymru fydd yn golygu gwelliannau i'r rhan yma o'r ffordd fydd hefyd yn gwella'r troad i lawr tuag at Brithdir o gyfeiriad Dinas Mawddwy, a bod tebygolrwydd cryf y bydd y gwaith hwn wedi ei wneud erbyn i'r ysgol gael ei datblygu. |
| 5.3 | Pryderon ynglŷn a'r ffyrdd rhwng Llanfachreth a Brithdir, yn ystod tywydd gaeafol gall y ffordd fod yn beryglus iawn o gyfeiriad Bontnewydd a Dolgellau | 3 | Mae canllawiau a pholisïau mewn lle i sicrhau nad yw disgyblion yn cael eu rhoi mewn perygl pan fo'r tywydd yn arw. Mae nifer o ddisgyblion ar draws y Sir yn cael eu cludo i'r ysgol ar hyd ffyrdd gwledig a rhaid sicrhau eu diogelwch bob amser. |
| 5.4 | Mae angen teithio dros 2 bont gul i gyrraedd safle Brithdir yn ogystal a chorneli troellog iawn yn y pentref a thu hwnt. | 1 | Mae gwasanaeth bysus cyhoeddus eisoes yn defnyddio'r ffordd yma ac yn ôl barn y Gwasanaeth Priffyrdd nodwyd fod y bont yn ddiogel, ond bod rhaid i draffig arafu wrth ei chroesi gan ei bod yn gul. |
| 5.5 | Pryder am ddiogelwch yn Brithdir. Byddai codi a gostwng plant yn haws yn Ieuan Gwynedd | 1 | Bydd gwelliannau yn cael eu gwneud i sicrhau diogelwch wrth godi a gostwng plant ym Mrithdir.<br>Nodau arolwg Estyn diwethaf parthed Ysgol Brithdir:<br>"Gofelir yn dda am ddiogelwch y disgyblion. Cant eu goruchwylio'n ofalus wrth gyrraedd a gadael yr ysgol ac yn ystod amserau egwyl. Sefydlwyd polisïau addas ar gyfer sicrhau lles a diogelwch y plant sy'n gweithredu'n briodol. Mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle ar gyfer cynnal asesiadau risg tra bod disgyblion yn yr ysgol ac oddi ar y safle." |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Nid oes dim i nodi na fydd trefniadau cadarn fel hyn yn gallu parhau dan drefniant ysgol ardal fel y cynnig. |
| | | | |
| **6** | **Materion Safle** | | |
| **6.1** | **Brithdir** | | |
| 6.1.1 | O blaid safle Brithdir / Rhesymau dros dewis y safle yma yn gwbl eglur, ddealladwy a synhwyrol / Ysgol Brithdir mewn safiad braf allan yn y wlad gyda'r ysgol yn gallu manteisio ar elfennau naturiol e.e. taith gerdded i sylwi ar natur, Taith y Torent, caer Rhufeinig | 16 | Bu i Fwrdd y Cyngor ystyried mater lleoliad y prif safle yn ei gyfarfod ar Hydref 11, 2011, gan bwyso a mesur p'un ai penderfynu ar safle presennol Ysgol Brithdir neu safle presennol Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain. Wrth gloriannu'n ofalus y ffactorau technegol; y ffactorau eraill sy'n berthnasol wrth ystyried datblygu ysgol ardal; sylwadau'r PAD a sylwadau'r Aelodau Lleol; argymhellwyd ymgynghori ar sail y bwriad i sefydlu un o safleoedd yr Ysgol Ardal ar safle presennol Ysgol Brithdir. |
| 6.1.2 | Brithdir yw'r doethaf gan bod Rhydymain yn rhy agos i Llanuwchllyn / Brithdir o fewn cyrraedd hwylus i bawb ynghlwm (Rhydymain, Llanfachreth a Brithdir) / 84% o blant y tri ardal yn byw yn nes i safle Brithdir nag Rhydymain / Dylai ysgol newydd bod yn hyfyw i'r dyfodol gyda sicrwydd disgyblion / Safle Brithdir yn cynnig addysg wledig gynhaliol i'r dyfodol / Rhieni'n dewis Ysgol Brithdir oherwydd Cymraeg ardderchog a'r addysg sydd yn rhoi hyder i blant ifanc | 14 | |
| 6.1.3 | Brithdir o fewn pellter rhesymol i safle Dinas Mawddwy / Rhydymain yn bellach o Dinas Mawddwy a Llanfachreth / Agosrwydd Brithdir i Ddinas Mawddwy yn allweddol 'r datblygiad fod yn llwyddiannus | 8 | Nodwyd pellter safle Brithdir i Dinas Mawddwy fel mantais i leoli'r prif safle yn Brithdir gan y byddai hyn yn hwyluso rhediad yr Ysgol Ardal Aml-Safle. |
| 6.1.4 | Ffordd 'Top Torrent' wedi ei gwella erbyn i'r ysgol newydd gael ei hagor / Mynediad Brithdir (B4416) o'r ffordd fawr (A470) yn derbyn gwelliannau ac felly ni fydd problem gyda'r cynnydd mewn trafnidiaeth | 6 | Bydd troad o'r A470 i Frithdir yn cael ei wella fel rhan o gynlluniau Llywodraeth Cymru a mae'n debyg fydd y gwaith wedi ei cwblhau erbyn i'r ysgol ardal agor. |
| 6.1.5 | Cae addas drws nesaf i Ysgol Brithdir / Ysgol yn cael ei gadw oddi ar y ffordd fawr a bydd gwelliannau i'r mynediad | 3 | Bydd mynediad a man parcio yn yr ysgol yn cael ei wneud o'r newydd. |
| 6.1.6 | Lleoliad Meithrinfa Seren Fach yn Brithdir / Teuluoedd wedi arfer teithio i Brithdir / Cyswllt agos yn bodoli rhwng yr ysgol (addysg gynradd) a'r feithrinfa (addysg | 11 | Nodwyd agosrwydd y ddarpariaeth feithrin fel mantais posib i leoliad y brif safle yn adroddiad y Bwrdd 11-10-11 ac o fewn dadansoddiadau SWOT aelodau'r PAD. Cyfeiria sawl llythyr a dderbyniwyd gan drigolion o fewn yr Ymgynghoriad Statudol i'r budd yma |

<table>
<tr><td></td><td>feithrin) / Agosatrwydd y meithrinfa wedi denu rhieni ar hyd y blynyddoedd, plant yn mynd i’r meithrinfa a felly mae’n gam naturiol iddynt ddilyn yn rhoi addysg gynradd yn y pentref / Cyswllt agos yn pwysig iawn / Meithrinfa Seren Fach yn llwyddiant ac yn leoliad hwylus i nifer fawr o rieni.</td><td></td><td>hefyd.</td></tr>
<tr><td>6.1.7</td><td>45 o ddisgyblion yn Ysgol Brithdir / Niferoedd Ysgol Brithdir wedi cynyddu dros blynyddoedd diwethaf a does dim llefydd gweigion – cynnydd o 114% / Niferoedd Machreth, Ieuan Gwynedd a Dinas Mawddwy wedi gostwng (mwy o lefydd gweigion na plant yn mynychu) / Niferoedd Ieuan Gwynedd wedi gostwng 48% / Rhagamcanion niferoedd Brithdir yn debygol o aros yr un fath tra bod rhagamcanion niferoedd y tair ysgol arall yn dangos dim gwelliant / Nifer isel iawn yn Ieuan Gwynedd ar hyn o bryd – 16</td><td>14</td><td>Ers 1975 mae niferoedd disgyblion Ysgol Brithdir wedi cynyddu 114%, Ysgol Dinas Mawddwy wedi gostwng 42%, Ysgol Ieuan Gwynedd wedi gostwng 48% a Ysgol Machreth wedi gostwng 16%.<br>Nid yw rhagamcanion yr ysgolion yn dangos newid yn y tuedd presennol:<br>
<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Gwir Nifer Medi 2008</th><th>Gwir Nifer Medi 2009</th><th>Gwir Nifer Medi 2010</th><th>Gwir Nifer Medi 2011</th><th>Rhagamcan Medi 2012</th><th>Rhagamcan Medi 2013</th><th>Gwahaniaeth rhwng Medi 2008 a Medi 2013</th><th>Gwahaniaeth %</th></tr>
<tr><td>Brithdir</td><td>37</td><td>37</td><td>40</td><td>45</td><td>45</td><td>46</td><td>+9</td><td>+24%</td></tr>
<tr><td>Dinas Mawddwy</td><td>27</td><td>24</td><td>25</td><td>22</td><td>24</td><td>20</td><td>-7</td><td>-26%</td></tr>
<tr><td>Ieuan Gwynedd</td><td>25</td><td>24</td><td>19</td><td>16</td><td>18</td><td>16</td><td>-9</td><td>-36%</td></tr>
<tr><td>Machreth</td><td>29</td><td>23</td><td>22</td><td>16</td><td>15</td><td>16</td><td>-13</td><td>-45%</td></tr>
</table></td></tr>
<tr><td>6.1.8</td><td>Brithdir yw’r safle mwyaf gynaliadwy yn seiliedig ar wybodaeth data tabl 3.5 y ddogfen ymgynghorol</td><td>2</td><td>Dyma’r tabl cyfeiriwyd ato:</td></tr>
</table>

| Ysgol | Brithdir | Dinas Mawddwy | Ieuan Gwynedd | Machreth |
|---|---|---|---|---|
| **Capasiti** (yn seiliedig ar gylchlythyr Rhif 09/06 Cynulliad Cenedlaethol Cymru Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru) **Ynghyd â Lleoedd Meithrin Lle Bo'n Gymwys** | 38 | 69 | 45 | 46 |
| **Ystod Oedran** | 3 - 11 | 3 - 11 | 3 - 11 | 3 - 11 |
| **Nifer Ar Y Gofrestr Medi 2011** (ynghyd a lleoedd meithrin/chweched dosbarth lle bo'n gymwys) | 45 | 22 | 16 | 16 |
| **Newid Yn % Niferoedd Yr Ysgolion Ers 1975-2011** | +114% | -42% | -48% | -6% |
| **Nifer o Ddisgyblion A Ragwelir Yn Ystod Y Pum Mlynedd Nesaf** | 2012-2013 = 45<br>2013-2014 =46<br>2014-2015=46<br>2015-2016 = 46 | 2012-2013 =24<br>2013-2014 =20<br>2014-2015=20<br>2015-2016 =20 | 2012-2013 = 16<br>2013-2014 =18<br>2014-2015=16<br>2015-2016 =16 | 2012-2013 = 15<br>2013-2014 = 16<br>2014-2015=13<br>2015-2016 =13 |
| **Categori'r Ysgol** (cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyir, gwirfoddol a reolir, sefydledig) | Cymuned | Cymuned | Cymuned | Gwirfoddol a Reolir |
| **Categori Yn ôl Cyfrwng Iaith** (seiliedig ar Ddogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 023/2007 - Diffinio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg) – DIFFINIAD PLASC | Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg | Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg | Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg | Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg |
| **Cymeriad Crefyddol Dynodedig** (lle bo'n gymwys) | - | - | - | Ysgol yr Eglwys yng Nghymru |
| **Data Perfformiad Ysgolion / Manylion Adroddiadau Arolygu Estyn** | Arolwg Ionawr 2008<br>3 x Gradd 1<br>4 x Gradd 2 | Arolwg Mai 2010<br>7 x Gradd 2 | Arolwg Chwefror 2007<br>1 x Gradd 1<br>6 x Gradd 2 | Arolwg Chwefror 2010<br>5 x Gradd 1<br>2 x Gradd 2 |
| **Manylion Unrhyw Ddarpariaeth Anghenion Addysgol Ychwanegol** | - | - | Adeilad wedi ei addasu i dderbyn disgyblion ag anableddau | - |
| **Llefydd Gweigion 2011- 2012** | 0% (0) | 68% (47) | 64% (29) | 65% (30) |
| **Cost Y Pen 2011/2012** | £3,910 | £6,868 | £7,519 | £6,861 |
| **Disgyblion All-dalgylch 2010-2011** | 40% (16) | 16% (4) | 37% (7) | 59% (13) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.1.9 | Tynnwyd sylw yn cyfarfod statudol rhieni Ysgol Ieuan Gwynedd bod mynedfa arfaethedig yr Ysgol Ardal yn Brithdir ar gornel ddall (o gyfeiriad Brithdir). Byddai rhaid addasu'r cynllun pe bai safle Brithdir yn cael ei gadarnhau. | 1 | Fel rhan o'r addasiadau bydd y ffordd o flaen safle'r ysgol yn cael ei sythu i wella gweledd o'r fynedfa. Ystyrir hefyd gosod mesurau cyfyngu cyflymder traffig. |
| 6.1.10 | Brithdir yn anaddas, peryg wrth i rieni nol a danfon eu plant / Cerbydau mawr yn mynd yn sownd yn y Bont ar y ffordd cyn yr ysgol / Mynedfa i Brithdir wrth adael yr A470 | 1 | Bydd troad o'r A470 i Frithdir yn cael ei wella fel rhan o gynlluniau Llywodraeth Cymru ac mae'n debyg fydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn i'r ysgol ardal agor. Nid oes cynlluniau i newid y bont sydd ar y ffordd ar hyn o bryd. Bydd mynediad a man parcio yn yr ysgol yn cael ei wneud o'r newydd.<br><br>Mae adroddiad arolygu Estyn diwethaf Ysgol Brithdir yn nodi:<br>"Gofelir yn dda am ddiogelwch y disgyblion. Cant eu goruchwylio'n ofalus wrth gyrraedd a gadael yr ysgol ac yn ystod amserau egwyl. Sefydlwyd polisïau addas ar gyfer sicrhau lles a diogelwch y plant sy'n gweithredu'n briodol. Mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle ar gyfer |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cynnal asesiadau risg tra bod disgyblion yn yr ysgol ac oddi ar y safle."<br><br>Nid oes dim i nodi na fydd trefniadau cadarn fel hyn yn gallu parhau dan drefniant ysgol ardal fel y cynnig. |
| 6.1.11 | Camgymeriad fyddai sefydlu ysgol ardal o fewn 2 filltir i Dolgellau | 1 | Mae safle ysgol Brithdir 2.9 milltir o safle presennol ysgol Gynradd Dolgellau. Mae safle ysgol Ieuan Gwynedd 5.7 milltir o safle presennol ysgol Gynradd Dolgellau. Mae'r safle ym Mrithdir yn boblogaidd iawn yn yr ardal – mae 45 o blant mewn ysgol ar gyfer 38. |
| 6.1.12 | Nid yw'n afresymol gofyn i staff Dinas Mawddwy deithio'r 4 milltir ychwanegol i Rhydymain, felly dylid diystyru y pwyslais sydd wedi ei osod ar agosatrwydd Brithdir at Dinas Mawddwy | 1 | Mae safle Brithdir yn nes i Dinas Mawddwy nag i Rhydymain. Nodwyd pellter safle Brithdir i Dinas Mawddwy fel mantais i leoli'r prif safle yn Brithdir gan y byddai hyn yn hwyluso rhediad yr Ysgol Ardal Aml-Safle. |
| 6.1.13 | Mae 2 faes carafannau yn Brithdir sydd yn golygu cynnydd yn y traffig | 1 | Mae asesiad traffig wedi ei gynnal, a chanlyniad yr asesiad oedd na fyddai ymestyn darpariaeth addysg ar safle Brithdir yn creu problemau traffig yn yr ardal.<br><br>Petai cynnydd mewn lefel traffig o ganlyniad i'r 2 faes carafannau mae'n debyg y byddai'r cynnydd mwyaf yn ystod gwyliau ysgol, ac felly ni fydd yn effeithio ar safle'r ysgol ardal i'r graddfa ble gellir rhedeg ysgol. |
| 6.1.14 | Rhagweld y bydd lefel y traffig drwy Brithdir a heibio'r ysgol yn cynyddu o ganlyniad i'r gwelliannau fydd yn cael eu gwneud i briffordd yr A470 ar gyffordd Maes yr Helmau. | 2 | Nid oes tystiolaeth i gefnogi'r farn yma. Mae asesiad traffig wedi ei gynnal, a chanlyniad yr asesiad oedd na fyddai ymestyn darpariaeth addysg ar safle Brithdir yn creu problemau traffig yn yr ardal.<br><br>Yn wir, mae'r gwelliannau i'r A470 yn welliant i'r brif ffordd rhwng Dinas Mawddwy a Dolgellau – nid yw'r ffordd benodol yma yn mynd heibio'r safle ym Mrithdir.. |
| 6.1.15 | Maint y safle parcio yn y dyluniad yn annigonol. Dengys y cynllun 18 safle parcio. Byddai hyn yn annigonol o ystyried y bydd nifer o rieni a thacsis angen parcio i ollwng a chodi plant. Mae'r safle parcio yn llawer rhy fach i ddiwallu anghenion trigolion 4 ardal; pobl fydd yn ymweld a'r ysgol newydd i nosweithiau rhieni, cyngherddau a digwyddiadau o'r fath. | 1 | Dyluniad cysyniadol a cychwynnol sy'n bodoli ar hyn o bryd, a bydd yr Awdurdod yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau fod holl anghenion defnyddwyr yr ysgol yn cael eu ddiwallu.<br><br>Os fydd y cynllun hwn yn mynd yn ei flaen, sefydlir 'Grŵp Defnyddwyr' i'w ddatblygu ymhellach. Byddai materion fel hyn yn greiddiol i'r 'Grŵp Defnyddwyr' ystyried wrth adnabod anghenion yr ysgol pan ddaw amser cynllunio llawer mwy manwl. Mae'r Gwrp Defnyddwyr yn cynnwys aelodau o staff, llywodraethwyr, disgyblion, rhieni ac aelodau'r gymuned yn ystod y broses dylunio |
| 6.1.16 | Safle ysgol newydd Brithdir ar gae gwlyb, llechweddog, gyda cors yn ei gwaelod. Mae hanes o ddŵr yn crynhoi | 2 | Mae'r ffactorau yma wedi ei hystyried yn barod wrth ddod at y costau sydd yn cael eu nodi yn y ddogfen Ymgynghori Statudol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yng nghornel isaf y cae, a bydd angen mynd i gostau sylweddol i baratoi'r safle i'w ddatblygu cyn dechrau'r gwaith adeiladu. Mae ysgol Ieuan Gwynedd ar safle gwastad, addas, a hawdd iawn fyddai datblygu'r safle presennol. | | |
| 6.1.17 | Tŷ annedd preifat ar dir yr ysgol gyda hawl i'r perchnogion a'u hymwelwyr neu unrhyw berson arall groesi tir yr ysgol ar unrhyw adeg. Mae hyn yn bryder sylweddol yn enwedig gan fod maes amddiffyn plant ar frig yr agenda cenedlaethol. | 6 | Nid oes tystiolaeth i nodi fod ysgolion sydd wedi eu lleoli ger tai yn cynyddu risg o ran ffactorau amddiffyn plant. Yn wir mae rhan fwyaf o ysgolion y sir o fewn safleoedd ble mae tai yn eu amgylchynu. Disgwylir i'r un drefn o sicrhau iechyd a diogelwch ysgol gael ei weithredu fel ac y gwneir heddiw. Mae yn debygol byddai ystyriaethau o'r math hyn yn cael eu hamlygu wrth ddatblygu safle'r ysgol.<br>Mae adroddiad arolygu Estyn diwethaf parthed Ysgol Brithdir yn nodi:<br>"Gofelir yn dda am ddiogelwch y disgyblion. Cant eu goruchwylio'n ofalus wrth gyrraedd a gadael yr ysgol ac yn ystod amserau egwyl. Sefydlwyd polisïau addas ar gyfer sicrhau lles a diogelwch y plant sy'n gweithredu'n briodol. Mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle ar gyfer cynnal asesiadau risg tra bod disgyblion yn yr ysgol ac oddi ar y safle."<br><br>Nid oes dim i nodi na fydd trefniadau cadarn fel hyn yn gallu parhau dan drefniant Ysgol ardal fel y cynnig. |
| 6.1.18 | Yn ôl ROSPA mae angen i fan chwarae fod yn weledol i'r rhai sydd ar ddyletswydd heb gilfachau a mannau anghysbell, o weld cynlluniau'r safle, mae natur ddarniog y man chwarae yn groes i hyn/ Nid yw'r iard yn ddigonol ar gyfer amser chwarae gwlyb lle nad yw plant yn cael mynd ar y cae, nid yw chwaith yn rhoi gofod ar gyfer hybu gweithgarwch corfforol amrywiol er lles iechyd y plant. | 2 | Dyluniad cysyniadol a cychwynnol sy'n bodoli ar hyn o bryd, a bydd yr Awdurdod yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau fod holl anghenion defnyddwyr yr ysgol yn cael ei ddiwallu.<br>Os fydd y cynllun hwn yn mynd yn ei flaen, sefydlir 'Grŵp Defnyddwyr' i'w ddatblygu ymhellach. Byddai materion fel hyn yn greiddiol i'r 'Grŵp Defnyddwyr' ystyried wrth adnabod anghenion yr ysgol pan ddaw amser cynllunio llawer mwy manwl. Mae'r Grŵp Defnyddwyr yn cynnwys aelodau o staff, llywodraethwyr, disgyblion, rhieni ac aelodau'r gymuned yn ystod y broses dylunio |
| 6.1.19 | Adeilad ysgol Brithdir yn hen iawn | 1 | Bydd yr ysgol ardal yn cael ei hadeiladu i ofynion yr 21ain Ganrif, ac felly bydd yn rhagori ar y nodweddion sy'n bodoli'n bresennol yn unrhyw un o ysgolion yr ardal. Bydd disgyblion yn gwario rhan helaeth iawn o'u hamser o fewn rhan newydd yr adeilad a defnyddir rhan hynach yr ysgol fel neuadd, man bwyta ac ystafelloedd staff – bydd y mannau yma hefyd yn cael eu huwchraddio. |
| 6.1.20 | Mae maint yr ardal chwarae caled tu allan yn y Brithdir yn rhy gyfyng ar gyfer 80+ o blant os bydd pawb yn defnyddio'r iard yr un pryd. | 1 | Bydd yr ysgol ardal yn cael ei hadeiladu i ofynion yr 21ain Ganrif, ac felly bydd yn rhagori ar y nodweddion sy'n bodoli'n bresennol yn unrhyw un o ysgolion yr ardal.<br><br>Dyluniad cysyniadol a cychwynnol sy'n bodoli ar hyn o bryd, a bydd yr Awdurdod yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau fod holl anghenion defnyddwyr yr ysgol yn cael ei ddiwallu.<br><br>Byddai materion fel hyn yn greiddiol i'r 'Grŵp Defnyddwyr' ystyried wrth adnabod anghenion yr ysgol pan ddaw amser cynllunio llawer mwy manwl. Mae'r Defnyddwyr yn cynnwys aelodau o staff, llywodraethwyr, disgyblion, rhieni ac aelodau'r gymuned yn ystod y broses dylunio. |
| 6.1.21 | Pwy ydi perchen safle Brithdir? | 1 | Cyngor Gwynedd yw perchennog y safle. Mae cyfamod yn y teitl sy'n cyfyngu'r defnydd fel safle ar gyfer Ysgol. Pe bai'r defnydd fel ysgol yn dirwyn i ben byddai angen caniatad y Comisiwn Elusenol ac o brofiad tebyg mewn achosion cyffelyb, byddai angen i unrhyw incwm gael ei glustnodi ar gyfer defnydd tebyg h.y. cynnal ysgol gynradd. Nid yw'n amhosib i'r Cyngor werthu'r safle felly. |
| 6.1.22 | Bydda datblygu safle Brithdir yn amddifadu unrhyw gymuned o ysgol gan fod lleoliad ysgol Brithdir oddi allan i'r pentref. | 1 | Cred yr Awdurdod byddai modd i'r cymunedau oll gefnogi'r ysgol newydd a byddai modd i'r ysgol elwa o'r cymunedau ehangach hynny y byddai'n ei wasanaethu. Roedd rhai sylwadau aelodau'r Paneli Adolygu Dalgylch yn ystod trafodaethau yn ffafrio adeilad ysgol llwyr newydd mewn safle hollol 'niwtral'.<br>Rhaid cofio er ei lleoliad daearyddol presennol mae Ysgol Brithdir dros ei chapasiti ers nifer o flynyddoedd ac wedi gweld cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae hyn i'r gwrthwyneb i'r patrwm ymysg y 3 ysgol arall. |
| 6.1.23 | Roedd gweld maes parcio pwrpasol wedi ei gynllunio yn lleddfu llawer o pryderon / Da i ddeall bydd gwaith ar y mynedfa newydd yn gallu digwydd heb amharu ar Ysgol Brithdir fel y mae hi ar hyn o bryd / Diogelwch plant yn holl bwysig a rhaid cael y mynedfa ddiogel / Diogelwch plant sydd yn derbyn cludiant bws i'r ysgol yn cynyddu oherwydd cynnydd mewn nifer ceir sydd yn codi a gollwng plant ar y safle ar yr ru'n pryd. | 6 | Fel rhan o'r datblygiad argymhellir byddai gwelliannau yn cael ei wneud i fynediad yr ysgol yn ogystal â chreu man parcio addas. Argymhellir y bydd maes parcio newydd yn cael ei ddatblygu a bydd mynediad newydd yn cael ei greu. Bydd y mesurau hyn yn tynnu cerbydau fydd yn hebrwng disgyblion i'r ysgol oddi-ar y ffordd fawr a bydd llwybr diogel fydd yn gwahanu cerddwyr a cherbydau o fewn y maes parcio yn arwain tuag at yr ysgol.<br><br>Bydd y gwelliannau hyn yn gwella gweledecdd i mewn i'r safle yn ogystal. Ystyrir hefyd gosod cyfyngiadau cyflymder ar hyd y ffordd y tu allan i'r safle.<br><br>Byddai materion o bryder yn greiddiol i'r 'Grŵp Defnyddwyr' eu hystyried wrth adnabod anghenion yr ysgol pan ddaw amser i gynllunio a datblygu dyluniadau llawer mwy manwl. |
| 6.1.24 | Bydd digon o lefydd parcio yn Brithdir? Problem fawr yno ar hyn o bryd gyda rhieni'n gorfod dod ar amseroedd gwahanol i nol plant o'r ysgol. Lle yn Rhydymain i o leiaf 15 o geir gyferbyn a'r ysgol | 4 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.1.25 | Safle Brithdir yn cael ei ddatblygu rhwng 2 gornel beryglus Ysgol Ieuan Gwynedd oddi ar y ffordd fawr ac mae dwy fynedfa'r pentref yn cynnig ei hun fel system unffordd fyddai'n gwneud y safle'n fwyfwy ddiogel. Ysgol Brithdir ar ffordd brysur gyda llawer yn ei ddefnyddio fel llwybr cyflym i osgoi teithio gyrion Dolgellau<br>Mae canllawiau cenedlaethol yn amodi fod angen i fynedfa'r ysgol fod a gweledell o 70 medr bob ochr o gymeryd fod y drafnidiaeth yn teithio ar gyflymder o 30mya. Nid yw hyn yn ymarferol bosib yn Brithdir heb welliant sylweddol i'r ffordd<br>Petai cyflymder trafnidiaeth yn cael ei gyfyngu i 20mya bydd gweledell o ochr pentref Brithdir yn parhau i fod yn is safonol. | 12 | Bydd y Grŵp Defnyddwyr yn cynnwys aelodau o staff, llywodraethwyr, disgyblion, rhieni ac aelodau'r gymuned yn ystod y broses dylunio. |
| 6.1.26 | Creu mynedfa newydd i ysgol Brithdir yn annerbyniol gan nad oes sicrwydd y byddai pob gyrrwr yn cadw o fewn y cyfyngiad cyflymder a gallai hyn ychwanegu at y risg o ddamweiniau i drafnidiaeth yr ysgol | 1 | Argymhellir y bydd maes parcio newydd yn cael ei ddatblygu a bydd mynediad newydd yn cael ei greu. Bydd y mesurau hyn yn tynnu cerbydau fydd yn hebrwng disgyblion i'r ysgol oddi-ar y ffordd fawr a bydd llwybr diogel fydd yn gwahanu cerddwyr a cherbydau o fewn y maes parcio yn arwain tuag at yr ysgol.<br><br>Bydd y gwelliannau hyn yn gwella gweledell i mewn i'r safle yn ogystal. Ystyrir hefyd gosod cyfyngiadau cyflymder ar hyd y ffordd y tu allan i'r safle. |
| 6.1.27 | Ni chyfeirir at faes parcio system unffordd yn y dyluniad er mwyn osgoi unrhyw debygrwydd o wrthdrawiad rhwng plant a cheir yn bacio yno. Byddai'n bosibl gweithredu system o'r fath yn hawdd yn Rhydymain. | 2 | Dyluniad cysyniadol a cychwynnol sy'n bodoli ar hyn o bryd, a bydd yr Awdurdod yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau diogelwch pawb sy'n defnyddio'r maes parcio, boed hyn drwy ymgorffori system unffordd neu unrhyw system gyffelyb. |
| 6.1.28 | Dim palmant na goleuadau stryd tu allan i ysgol Brithdir. Dim llwybr cerdded diogel i blant gerdded o'r ysgol i'r neuadd a'r capel.<br><br>Nid oes llwybr addas i ddisgyblion yn Brithdir gerdded o'r ysgol i'r neuadd na'r capel. Gyda'r pwyslais gynyddol ar i blant cyfnod sylfaen fynd allan am dro a manteisio ar gael eu haddysgu yn yr awyr agored, mae'n anfantais fawr nad oes llwybr diogel. Yn Rhydymain fodd bynnag mae modd | 5 | O ganlyniad i'r buddsoddiad ar safle Ysgol Brithdir, bydd gwelliannau yn cael eu gwneud i sicrhau diogelwch.<br><br>Mae'r ysgol ar safle Brithdir wedi gwneud defnydd o'r neuadd a'r capel am nifer fawr o flynyddoedd. Mae trefniadau diogelwch addas gan yr ysgol i sicrhau fod teithiau cerdded yn ddiogel.<br><br>Fel un o rinweddau rhagorol mewn adroddiad arolygu diwethaf gan Estyn parthed Ysgol Brithdir nodwyd: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cerdded o'r ysgol i neuadd y pentref ac amrywiol lwybrau cyhoeddus ar balmant. Ni fyddai'r plant yn cerdded ar ochr ffordd brysur ac mae goleuadau stryd eisoes yn bodoli. | | "gwneir defnydd o leoliadau eraill megis neuadd y pentref. Defnyddir y neuadd a'r eglwys ar gyfer perfformiadau ysgol-gyfan yn ystod y flwyddyn".<br><br>O ran diogelwch mae'r adroddiad yn parhau wrth nodi:<br>"Gofelir yn dda am ddiogelwch y disgyblion. Cant eu goruchwylio'n ofalus wrth gyrraedd a gadael yr ysgol ac yn ystod amserau egwyl. Sefydlwyd polisïau addas ar gyfer sicrhau lles a diogelwch y plant sy'n gweithredu'n briodol. Mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle ar gyfer cynnal asesiadau risg tra bod disgyblion yn yr ysgol ac oddi ar y safle."<br><br>Nid oes dim i nodi na fydd trefniadau cadarn fel hyn yn gallu parhau dan drefniant Ysgol ardal fel y cynnig.<br><br>Yn ogystal, petai dymuniad mae grantiau drwy'r gynllun Llywodraeth Cymru "Llwybrau Diogel yn y Gymuned" yn bodoli ac mae'n bosib rhoi cais am arian o'r cynllun yma petai'r cynnig ysgol arfaethedig yn llwyddiannus. Yn unol canllawiau'r Llywodraeth byddai'n ofyn i'r Cyngor Cymuned, yr ysgol, yr Awdurdod a'r gymuned roi cais am y grant ar y cyd drwy ardystio y byddai defnydd cyson o'r llwybr. |
| | | | |
| **6.2** | **Rhydymain** | | |
| 6.2.1 | O Blaid Rhydymain / Cais i ail edrych ar lleoliad er mwyn sicrhau bod y lleoliad gorau, diogelaf a mwyaf cost-effeithiol yn cael ei ddewis ar gyfer yr Ysgol Ardal newydd | 10 | Bu i Fwrdd y Cyngor ystyried mater lleoliad y prif safle yn ei gyfarfod ar 11 Hydref 2011, gan bwyso a mesur p'un ai penderfynu ar safle presennol Ysgol Brithdir neu safle presennol Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain.<br><br>Wrth gloriannu'n ofalus y ffactorau technegol; y ffactorau eraill sy'n berthnasol wrth ystyried datblygu ysgol ardal; sylwadau'r PAD a sylwadau'r Aelodau Lleol; argymhellwyd ymgynghori ar sail y bwriad i sefydlu un o safleoedd yr Ysgol Ardal ar safle presennol Ysgol Brithdir.<br><br>Pan ystyriwyd y mater gan Fwrdd y Cyngor, cafwyd cydnabyddiaeth fod datblygu safle Ysgol Ieuan Gwynedd yn haws, ond bod datblygu safle presennol Ysgol Brithdir yn cynnig y cyfle gorau i sicrhau ysgol gynaliadwy a hyfyw ar gyfer y dyfodol am y rhesymau canlynol:<br><br>• Lleoliad daearyddol o ran hygyrchedd i ddisgyblion dalgylch yr Ysgol Ardal. Mae dros tri chwarter o blant yn byw yn nes i safle Ysgol Brithdir nag i safle Ieuan Gwynedd |
| 6.2.2 | Os mai sicrhau addysg wledig ydi un ystyriaeth o'r ymgynghoriad, yna bydda rhieni yn fodlon teithio ychydig filltiroedd ychwanegol i fynychu ysgol Ieuan Gwynedd / Teimlir mai datblygiad ar gyfer plant Dolgellau yw'r ysgol ardal arfaethedig. | 1 | |
| 6.2.3 | Ysgol Ieuan Gwynedd wedi ei hadeiladu yn bwrpasol yn 1970 i wasanaethau plant ardal Rhydymain, Llanfachreth Brithdir a Ganllwyd.<br>Safle Ieuan Gwynedd heb gael ystyriaeth deg.<br>Cyflwr adeilad Ieuan Gwynedd o'r safon uchaf.<br>Estyniad bwrpasol ar gyfer disgyblion gyda anghenion arbennig | 4 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.2.4 | Cegin wedi ei hadnewyddu yn y 3 mlynedd ddiwethaf. Wedi derbyn gradd 5 sgôr hylendid bwyd | 1 | • Pellter o safle Dinas Mawddwy o ran amser teithio disgyblion a staff a phwysigrwydd hynny o ran rhediad Ysgol Ardal aml-safle.<br>• Hyfywdra'r ysgol i'r dyfodol. Ymddengys tuedd gyffredinol dros y blynyddoedd fod cynnydd wedi bod yn niferoedd Ysgol Brithdir, tra bod niferoedd Ysgol Ieuan Gwynedd wedi gostwng yn yr un cyfnod. Gall fod nifer o resymau am hyn, ond nodir y lleoliad fel ffactor amlwg<br><br>Wrth gwrs, byddai unrhyw ddatblygiad o'r newydd yn cael ei gynllunio i ddiwallu anghenion o'r math yma ac yn cwrdd yn llawn ag anghenion deddf DDA - Mae'r ffactorau yma wedi ei hystyried yn barod wrth ddod at y costau sydd yn cael eu nodi yn y ddogfen Ymgynghori Statudol ar gyfer safle Brithdir yn ogystal. |
| 6.2.5 | Uned addysg arbennig wedi ei adeiladu yn ddiweddar gyda ystafell gawod, toiled anabl, a dosbarth gyda mynedfa ar wahân i weddill yr ysgol ac yn addas ar gyfer cadair olwyn. Gweddill yr ysgol hefyd yn addas ar gyfer cadair olwyn | 1 | |
| 6.2.6 | Nid oes rhwystrau archeolegol, daearegol na bioamrywiol yn mynd i amharu ar ddatblygu safle Rhydymain | 1 | |
| 6.2.7 | Rhydymain ar y brif gyflenwad dwr a charthffosiaeth, felly ni fydd costau ychwanegol wrth ddatblygu ar gyfer rhagor o bobl. | 1 | Mae'r ffactorau yma wedi ei hystyried yn barod wrth ddod at y costau sydd yn cael eu nodi yn y ddogfen Ymgynghori Statudol ar gyfer safle Brithdir yn ogystal. |
| 6.2.8 | Ymwybodol fod y rhieni hynny sy'n dewis addysg wledig i'w plant yn fwy na bodlon teithio o Ddolgellau i Rydymain i sicrhau hyn | 1 | Ym mis Medi 2011 roedd 1 disgybl yn Ysgol Ieuan Gwynedd yn byw yn Nolgellau, tra fod 17 o ddisgyblion Brithdir yn byw yn Nolgellau. |
| 6.2.9 | Gan fod capasiti ysgol Ieuan Gwynedd yn fwy na chapasiti ysgol Brithdir byddai costau datblygu'n sylweddol is | 1 | Mae capasiti ysgol Ieuan Gwynedd yn 45, tra fod capasiti ysgol Brithdir yn 40. Nid yw hyn yn wahaniaeth sylweddol. |
| 6.2.10 | Nodwyd yn y ddogfen ymgynghorol bod 84% o blant yn byw yn nes i Brithdir na Rhydymain – nid yw hyn yn brawf na fyddai'r plant hynny'n fodlon teithio i Rhydymain. Os yw'r 84% yn cynnwys plant dalgylch Dinas Mawddwy mae'n gwbwl amherthnasol / Pwy sydd i ddweud bod rhieni Rhydymain a Llanfachreth yn fodlon anfon eu plant i Brithdir? | 3 | Nid yw plant Dinas Mawddwy wedi eu cynnwys yn y ffigwr 84%. Petai cynnwys niferoedd Dinas Mawddwy yn y ffigwr byddai 88% yn byw yn nes i Frithdir na Ieuan Gwynedd.<br><br>Yn ôl gwybodaeth niferoedd disgyblion, niferoedd disgyblion Ysgol Brithdir yn unig yn y dalgylch sydd wedi cynyddu, gall hyn fod am nifer o resymau. Er bod ddigon o lefydd gweigion yn Ysgol Ieuan Gwynedd nid yw'r un peth yn wir, am pa bynnag resymau, nid oes rhieni all-dalgylch wedi danfon eu plant i Rhydymain.<br><br>Mae'n anodd rhagweld beth fydd penderfyniadau rhieni ond wrth cynllunio cynnig fel hyn rhaid defnyddio niferoedd presennol yr ysgolion. Bydd yr ysgol ardal yn cael ei gynllunio ar gyfer 78 o blant gyda 10% ychwanegol. Gall rhieni ddewis ysgol arall, mae hyn yn wir ardraws y Sir. |
| 6.2.11 | Nodwyd yn y ddogfen ymgynghorol bod pellter o safle Dinas Mawddwy o ran amser teithio disgyblion a staff o blaid Brithdir – nodwyd yn y cyfarfod statudol anaml iawn | 3 | Rhagwelir symud disgyblion rhwng y safleoedd yn achlysurol. Mater i'r llywodraethwyr yw dewis sut i gydweithio rhwng y safleoedd, posib staff yn unig fydd yn symud safleoedd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | byddai plant yn teithio o'r naill safle i'r llall ac ar adegau prin hynny ar bws byddent yn cael eu cludo. Nid yw'n hawdd i fysiau croesi'r bont gul rhwng Brithdir a'r A470 a debyg byddai rhaid mynd i Bontnewydd. Routeplanner AA yn dangos siwrnai yma drwy Bontnewydd yn 14.5milltir (23munud) a siwrnai Rhydymain i Dinas Mawddwy yn 15milltir (20munud). Gan mai athrawon fydd yn teithio'r 4.1milltir ychwanegol nid yw hyn yn cyfiawnhau gwario'r £600,000 ychwanegol ar addasu safle Brithdir. Efallai bydd rhai aelodau o staff safle Dinas Mawddwy yn byw yn nes i Rhydymain /<br>Ni fydd yn hawdd i fysus groesi'r bont gul ger ysgol Brithdir ac efallai bydda bysus yn gorfod dilyn taith wahanol i gyrraedd Dinas Mawddwy a fyddai'n golygu mwy o amser teithio. | | Mae gwasanaeth bws cyhoeddus yn defnyddio'r ffordd ar draws y bont dan sylw. Byddai hyn yn galluogi disgyblion a staff safle Dinas Mawddwy mynd ar hyd y ffordd ar fws yn uniongyrchol i safle Brithdir (heb fynd drwy Bontnewydd).<br><br>Ni all yr Awdurdod rhoi unrhyw sylwad nag ystyried lleoliad byw aelodau staff wrth ddewis safle i'r ysgol ardal. Nid oes unrhyw aelod o staff ar gyfer yr ysgol ardal arfaethedig wedi eu penodi eto. |
| 6.2.12 | Nodwyd yn y ddogfen fod darpariaeth meithrin yn Brithdir - menter breifat yw Meithrinfa Seren Fach a nid yw'n gylch meithrin ac nid yw'n cynnig Cylch Ti a Fi. Yn neuadd Rhydymain mae Cylch Ti a Fi ac mae rhai o rhieni'n dod o Brithdir. Yn y gorffennol mae rhieni wedi cludo plant i'r Cylch Meithrin yn Rhydymain gan nad oedd darpariaeth i'r fath yn Brithdir<br>Ni ddylai'r cyswllt a darpariaeth feithrin ym Mrithdir gael ei ystyried gan mai busnes preifat yw Meithrinfa Seren Fach. Dylid rhoi sylw i'r ffaith fod Cylch Ti a Fi cryf iawn yn Rhydymain fydd yn bwydo'r Cylch Meithrin yn y dyfodol agos / Mae'r cyswllt rhwng ysgol Brithdir a Seren Fach yr un fath a ysgol Ieuan Gwynedd a Seren Fach – maent yn cludo plant o'r ddwy ysgol i'w clwb ar ôl ysgol am yr un ffi. / Nid oes modd ystyried Meithrinfa breifat gan ei fod yn ddibynnol ar gyflenwad a galw gan rheini sy'n gallu fforddio'r ddarpariaeth. | 7 | Wrth gynnal cyfarfodydd PAD bu i'r aelodau (cynrychiolaeth o bob ysgol – sef Pennaeth, Cadeirydd a Rhiant lywodraethwr) hynny gael y cyfle i greu dadansoddiad SWOT – o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau y safleoedd gwahanol. O fewn sawl copi o'r dadansoddiadau SWOT bu i aelodau gwahanol godi cyswllt safle Brithdir gyda'r Meithrinfa Seren Fach a hynny fel cryfder. Ni fu i'r un aelod godi Cylch Meithrin Ti a Fi fel cryfder cyffelyb i safle Rhydymain. Dyma felly pam y mae'r mater yma yn codi mewn cofnodion PAD ac mewn sawl un o'r dadansoddiadau SWOT.<br><br>Nodwyd yn y ddogfen ymgynghori fod darpariaeth meithrin ar gael ger safle presennol Ysgol Brithdir a bod yr ysgol a'r ddarpariaeth yno yn gweithio'n agos iawn. Nid oes Cylch Meithrin yn Rhydymain. |
| 6.2.13 | Nodwyd yn y ddogfen ymgynghorol bod tuedd gyffredinol dros y blynyddoedd fod cynnydd mewn niferoedd yn Brithdir tra bod niferoedd Ieuan Gwynedd wedi gostwng | 1 | Gwir y sefyllfa yw mai niferoedd Brithdir yn unig sydd wedi cynyddu, gall hyn fod am nifer o resymau. Er bod digon o lefydd gweigion yn Ysgol Ieuan Gwynedd nid yw'r un peth yn wir, a bellach 16 o ddisgyblion sydd yn yr ysgol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | – nid yw hyn yn sail cadarn dros gymryd na fyddai rhieni y dalgylch yr Ysgol Ardal yn anfodlon anfon eu plant i Rhydymain. | | |
| 6.2.14 | Nodwyd bod ffactorau technegol, ffactorau eraill, barn PAD a sylwadau'r Aelodau lleol wedi ei ystyried wrth dewis y safle. Ni wnaeth y Cynghorwyr dan sylw ymgynghori ag ardalwyr Rhydymain. | 5 | Cofnodwyd barn yr Aelodau Lleol yng nghyfarfod o'r Cyngor Llawn 14/07/2011 ac yng nghyfarfod y Bwrdd 11/10/2011. |
| 6.2.15 | Safle Ysgol Ieuan Gwynedd oddi ar y A494 ag yn safle ffafriol mewn tywydd garw – prin yw'r adegau rhaid cau'r ysgol tra bod sefyllfa wahanol yn Brithdir. | 2 | Mae gan Lywodraeth Cymru ganllawiau y mae'n rhaid i ysgolion Cymru weithredu parthed tywydd garw sef y ddogfen – 'Cau Ysgolion – agor ysgolion mewn tywydd gwael eithafol'.<br><br>Yn seiliedig ar wybodaeth derbyniwyd gan benaethiaid, rhwng 1 Medi 2010 a 9 Chwefror 2011, ni chaewyd Ysgol Brithdir. Caewyd Ysgol Ieuan Gwynedd am un diwrnod. Gaeaf 2010/11 oedd y gaeaf oeraf mewn 31 mlynedd, a gan bod Ysgol Brithdir wedi aros ar agor, hydera'r Cyngor byddai'n gallu parhau i weithredu yn yr un modd i'r dyfodol.<br><br>Wrth gwrs, yn ystod tywydd garw pan fydd ysgolion yn parhau i redeg, mae canllawiau llym y mae'n rhaid eu dilyn i sicrhau iechyd a diogelwch y disgyblion yn unol a chanllawiau priodol. |
| 6.2.16 | Wahanol i Ysgol Ieuan Gwynedd mae Ysgol Brithdir yn gil-haul ac yn aml ni fydd rhew yn meirioli yno o gwbl yn ystod y dydd yn y gaeaf / Brithdir mewn cysgod am o leiaf 3 mis o'r flwyddyn – pwysig wrth ystyried defnydd o cyfleusterau chwarae allanol | 8 | |
| 6.2.17 | Neuadd Rhydymain yn cyfrannu i Ysgol Ieuan Gwynedd, a all cyfrannu i'r Ysgol Ardal – o fewn pellter cerdded hwylus a diogel i'r safle gyda palmant tra bod angen cerdded hyd ffordd brysur di-balmant i gyrraedd neuadd Brithdir / Gellir ei ddefnyddio i gynnal gwersi ymarfer corff (Ieuan Gwynedd a Machreth eisoes yn ei ddefnyddio ar y cyd) / Mynedfa a thoiledau anabl yn y neuadd / Llwyfan addas gyda lle i 300 o gynulleidfa eistedd – cyngerdd Nadolig Ieuan Gwynedd eisoes yn cael ei gynnal ynddo / Cynhelir Cylch Ti a Fi yn y neuadd a mae cynlluniau ar y gweill i gael mwy o gydweithio rhwng Ysgol Ieuan Gwynedd a'r Cylch / Clwb ffermwyr ifanc Dolgellau'n cyfarfod yn y neuadd yn wythnosol / Clybiau a Chymdeithasau yn defnyddio'r ysgol/ Ni fyddai costau uchel ynghlwm wrth ddefnyddio'r neuadd – pe bai'r ysgol ardal yn enwebu dau gynrychiolydd i wasanaethu ar Bwyllgor y Neuadd, gallai'r ysgol rentu'r adeilad ar telerau | 7 | Byddai gallu parhau i fanteisio ar gyfleusterau cymunedol fel hyn yn fuddiol iawn i ddisgyblion o ardaloedd ehangach sydd efallai heb gael mynediad llawn iddynt yn y gorffennol. Byddai ysgol ardal sydd yn gwasanaethu ardal ychydig yn fwy yn gallu manteisio ar lawer mwy o adnoddau cymunedol o wahanol bentrefi er mwyn gwneud y mwyaf o'r hyn gall gymunedau ei gynnig i addysg a datblygiad disgyblion.<br><br>Yn wir o'r astudiaeth annibynnol o effaith y cynnig yma ar gymunedau dan sylw nodwyd rhai mesurau i'w hystyried er mwyn lliniaru a lleihau effaith:<br><br>• Sicrhau cefnogaeth i gymunedau ble mae ysgolion yn cau er mwyn ceisio cynnal sefyllfa'r cymunedau hynny.<br>• Cynnig cefnogaeth i'r cymunedau hynny iddynt fedru ystyried defnydd gorau o adeilad yr ysgol ar ôl iddi gau.<br>• Cynllunio i sicrhau fod yr Ysgol Ardal yn cynhwyso pentrefi dalgylch yr ysgol mewn gweithgareddau a chynnal gweithgareddau achlysurol yn y pentrefi hynny. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | rhesymol / Trefniadau ar y gweill i Barnardos cynnal dosbarthiadau yn y neuadd i feithrin sgiliau rhieni a magu plant a pharatoi at mynychu ysgol / Estynnwyd groeso i ymweld a'r neuadd | | • Cynnig darpariaeth cludiant i hwyluso cludiant plant o gymunedau yn effeithiol a diogel.<br>• Ceisio cyfyngu amser teithio plant i'r Ysgol Ardal i'r targed Sirol (30 munud) gan asesu bodlonrwydd rhieni a phlant ar y trefniadau cludo o ran prydlondeb a diogelwch.<br>• Ceisio sicrhau darpariaeth cludiant sydd yn cyd-fynd â gweithgareddau allgyrsiol fel bod modd lleihau'r angen am ofyn gan rieni i gludo plant.<br><br>Wrth gwrs, ni rhagwelir y bydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith ar y gweithgareddau sydd eisoes yn cael eu cynnal yn neuadd pentref Rhydymain. Y gobaith ydy, y bydd y cyswllt â'r Ysgol Ardal yn cryfhau gweithgareddau'r ardal gyfan. |
| 6.2.18 | Yn Rhydymain, ceir neuadd bentref fawr gyda capasiti oddeutu 300 gyda'r gorau yng Ngwynedd, a maes parcio digonol, sydd yn bodoli eisoes heb fynd i gostau ychwanegol. | 2 | |
| 6.2.19 | A fydd cyfleusterau addysgol a chwaraeon cystal ym Mrithdir a Rhydymain? Ddim yn bosib. / Iard gyfyng yn Brithdir bydd yr un maint i fwy o blant | 8 | Bydd yr ysgol ardal yn cael ei hadeiladu i ofynion yr 21ain Ganrif, ac felly bydd yn rhagori ar y nodweddion sy'n bodoli'n bresennol yn unrhyw un o ysgolion yr ardal. Bydd disgyblion yn gwario rhan helaeth iawn o'u hamser o fewn rhan newydd yr adeilad a defnyddir rhan hynach yr ysgol fel neuadd, man bwyta ac ystafelloedd staff – bydd y mannau yma hefyd yn cael eu huwchraddio.<br><br>Dyluniad cysyniadol a cychwynnol sy'n bodoli ar hyn o bryd, a bydd yr Awdurdod yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau fod holl anghenion defnyddwyr yr ysgol yn cael ei ddiwallu.<br><br>Mae strategaeth ad-drefnu yn nodi bod amgylchiadau addysgu a dysgu yn greiddiol i ddarparu addysg o'r radd flaenaf. Mae adroddiad Estyn *"Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd*" (2007) yn cadarnhau'r farn uchod. Noda'r adroddiad bod ysgolion oedd wedi gweld eu hadeiladau'n cael eu hadnewyddu wedi gweld gwelliant mewn cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion. Nodir bod arolygiadau Estyn o ysgolion unigol yn dangos bod ansawdd yr addysgu wedi gwella, bod morâl staff wedi codi, bod presenoldeb wedi'i gynnal ac ymddygiad wedi gwella a bod adeiladau sydd wedi eu gwella yn cynnig mwy o ddewis a darpariaeth well o ran addysg o fewn yr ysgol a gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol.<br><br>Datblygir safle Brithdir a bydd yr ystafelloedd dysgu yn cael ei hadeiladu o'r newydd mewn adeilad modern ac amgylcheddol gyfeillgar. Bydd yn darparu amgylchedd dysgu modern, ble byddai cyfleusterau technolegol diweddaraf ar gael. Rhagwelir y bydd yr adeilad presennol yn cael ei uwchraddio a'i addasu yn neuadd bwrpasol ac yn fan bwyta. |
| 6.2.20 | Gyda dyfodiad cwricwlwm 2008 a'r cyfnod sylfaen gyda nod o ddatblygu sgiliau ymchwiliol a dysgu drwy brofiad Ieuan Gwynedd yw'r safle gorau i gynnig hyn / Hwylus gwneud gwaith maes yn yr ardal gyda llwybrau natur diogel, coedwig, capel, pafin saff drwy'r pentref a afon gerbron yr ysgol. Ni fyddai hyn mor rhwydd yn Brithdir | 2 | |
| 6.2.21 | Llawer o'r prif elfennau yn nyluniad safle newydd Brithdir yn bodoli eisoes ar safle Ieuan Gwynedd, megis cornel natur, neuadd, gardd lysiau, cae chwarae ac iard galed sylweddol, hyn i gyd ar dirwedd gwastad hawdd ei ymestyn. Mae corlan chwarae addas i'r cyfnod sylfaen hefyd wedi ei sefydlu ac mae grant sylweddol wedi ei dderbyn i ddatblygu 'r ardal allanol ymhellach. | 3 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Y tu allan, rhagwelir y bydd maes parcio newydd ynghyd a mannau chwarae amrywiol, yn cynnwys maes chwarae pwrpasol a cornel natur. Mae rhai nodweddion arbennig yn ardal Brithdir fel llwybr cerdded poblogaidd ag olion Rhufeinig fydd o bosib yn cael eu defnyddio i elwa addysg y disgyblion.<br><br>Yn ogystal byddai materion fel hyn yn greiddiol i'r 'Grŵp Defnyddwyr' ystyried wrth adnabod anghenion yr ysgol pan ddaw amser cynllunio llawer mwy manwl. Mae'r Grŵp Defnyddwyr yn cynnwys aelodau o staff, llywodraethwyr, disgyblion, rhieni ac aelodau'r gymuned yn ystod y broses dylunio. |
| 6.2.22 | Gan fod safle Brithdir yn anwastad byddai costau sylweddol i sicrhau yr un ddarpariaeth i sicrhau mynediad hawdd i'r anabl a sydd yn bodoli ar safle Ieuan Gwynedd. | 1 | Mae'r ffactorau yma wedi ei hystyried yn barod wrth ddod at y costau sydd yn cael eu nodi yn y ddogfen Ymgynghori Statudol. |
| 6.2.23 | Un diwrnod yn unig fu Ysgol Ieuan Gwynedd ar gau yn ystod tywydd garw gaeaf 2010/11. | 1 | Yn seiliedig ar wybodaeth derbyniwyd gan benaethiaid, rhwng 1 Medi 2010 a 9 Chwefror 2011, ni chauwydchaewyd Ysgol Brithdir. Caeuwyd Ysgol Ieuan Gwynedd am un diwrnod. Gaeaf 2010/11 oedd y gaeaf oeraf mewn 31 mlynedd, a gan bod Ysgol Brithdir wedi aros ar agor, hydera'r Cyngor byddai'n gallu parhau i weithredu yn yr un modd i'r dyfodol. |
| 6.2.24 | Ysgol Ieuan Gwynedd yn nes at ganolfan yr Urdd yn Glan Llyn a'r ganolfan hamdden yn Bala – y ddau leoliad yn cynnwys pwll nofio a campfa | 1 | Mae'r pellter o Rhydymain i Glan Llyn yn 8.2 milltir, tra fod y pellter o Brithdir i Glan Llyn yn 11.7 milltir. Mae Ysgol Ieuan Gwynedd yn nes. |
| 6.2.25 | Mae ysgol Ieuan Gwynedd ar yr A494 sy'n ffordd sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer cael ei chadw'n glir yn y gaeaf ac fe fyddai gwasanaethau brys yn gallu cael mynediad hawdd mewn argyfwng. | 2 | Mae hyn yn gywir. Yn ogystal mae'r ffordd heibio Ysgol Brithdir hefyd yn derbyn yr un gwasanaeth yn ystod y gaeaf. Nid oes pryderon rhwng y naill safle na'r llall am fynediad i wasanaethau brys. |
| | | | |
| **6.3** | **Llanfachreth** | | |
| 6.3.1 | Annheg nad yw Llanfachreth yn cael ystyriaeth fel y prif safle / Cae wrth ymyl yr ysgol ar werth / Ysgol Eglwysig yw Ysgol Machreth | 1 | Rhoddwyd ystyriaeth gychwynnol i safle Ysgol Machreth, ond nodwyd fod y rhwydwaith ffyrdd yn un o'r ffactorau ystyriwyd wrth benderfynu. Ystyriwyd hefyd patrymau niferoedd yr ysgolion unigol, pa mor hyfyw fyddai gwahanol safleoedd, dwysedd ble mae disgyblion yn byw mewn perthynas a hygyrchedd i safle ysgol. Penderfynwyd cynnig lleoli ar safle arall gan fod y ffactorau hyn, ac eraill yn gryfach yn y fan honno. |
| 6.3.2 | Dadl bod y ffordd yn anaddas ddim yn sefyll gan bod bysiau a loriau'n teithio arnynt yn ddyddiol | 1 | |
| 6.3.3 | Gwan iawn yw'r ddadl nad yw'r ffyrdd yn addas ar gyfer ystyried Ysgol Machreth. Mae yn saff i holl deithiau bysus a loriau cludo i'r safle. | 3 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.3.4 | Byddai gan safle Ysgol Machreth botensial cynaeafu egni adnewyddol | 1 | Rhaid cydymffurfio â gofynion amgylcheddol wrth ddatblygu ysgol ar unrhyw safle. Byddai unrhyw gyfleon i gynhyrchu egni adnewyddol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r ysgol. Nid y mater yma ar ei ben ei hun yw'r ffactor fyddai yn penderfynu ar leoliad ysgol. |
| 6.3.5 | Dylid fod wedi ystyried lleoli'r ysgol ar dir niwtral, byddai yn decach i bawb | 1 | Byddai cael caniatâd adeiladu ar safle newydd, niwtral yn anodd yn yr ardal – gan ei bod o fewn y Parc Cenedlaethol. Penderfynwyd ei bod yn briodol ac yn yr achos hwn yn fwy cost effeithiol datblygu safle ysgol presennol.<br>Wrth ddatblygu'r cynnig yma a thrafod opsiynau yn y cyfarfodydd PAD, amcangyfrifwyd y byddai datblygu adeilad ysgol o'r newydd yn costio oddeutu £3.8m. Ystyriwyd yr opsiwn yma, ond penderfynwyd datblygu un o safleoedd yr ysgolion presennol oherwydd bod angen symud i gael ateb buan ar gyfer sefyllfa'r ysgolion. |
| | | | |
| **6.4** | **Dinas Mawddwy** | | |
| 6.4.1 | Pryder fod safle Dinas Mawddwy yn ynysig, heb fawr o reswm iddi fodoli. Angen canllawiau clir mewn lle i sicrhau fod y defnydd gorau yn cael ei gwneud o'r adnoddau sydd ar y safle, er mwyn sicrhau ei bod yn bartner cytbwys i'r datblygiad aml-safle. Angen arweiniad ymarferol glir i'r corff llywodraethu newydd wrth ddatblygu'r ysgol aml safle. | 2 | Wrth ddatblygu'r cynigion, ystyriwyd fod Ysgol Dinas Mawddwy eisoes yn Ysgol Ardal, ac yn darparu addysg ar gyfer ardal eang ble mae rhai plant eisoes yn teithio peth pellter i'r ysgol. Yn ogystal, rhoddwyd ystyriaeth i'r ffaith fod lleoliad presennol Ysgol Dinas Mawddwy gryn bellter o'r lleoliadau eraill, dros 8 milltir o'r lleoliad agosaf yn Gwynedd. Ystyriwyd hefyd amser teithio rhai disgyblion Dinas Mawddwy o'u cartrefi gan fod rhai yn teithio hyd at 25 munud i'r ysgol eisoes. |
| 6.4.2 | Angen sicrhau nad chwaer bach i Brithdir fydd safle Dinas Mawddwy | 1 | Bydd yn gyfrifoldeb ar y Corff Llywodraethu a'r Pennaeth i sicrhau fod yr un darpariaeth a'r un safon addysg ar gael ar ddwy safle'r ysgol |
| 6.4.3 | Falch bod Dinas Mawddwy yn aros - Byddai cau Dinas Mawddwy yn meddwl colli plant dros i ffin i Bowys, mae angen y plant ar ddalgylch Y Gader | 1 | Mae rôl corff llywodraethu ysgolion wedi eu bennu gan ddeddf gwlad ac ni all yr Awdurdod weithredu pwerau dros y materion hynny fel sydd wedi eu hamlygu yn y ddogfen ymgynghorol statudol. Byddai'r Awdurdod yn rhoi cymorth arferol i unrhyw corff llywodraethu fel yr arfer wrth i'r corff weithredu'r gofynion statudol sydd arno. |
| | | | |
| **7** | **Iaith Cymraeg** | | |
| 7.1 | Asesiad o effaith ieithyddol yn dangos bod y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg / Falch bod y cynnig yn cael effaith gadarnhaol / Gobaith bod pobl yn cefnogi'r cynnig i sicrhau dyfodol byw ac iach i'r iaith yn rhan hon o Feirionnydd / Dod a plant at ei | 4 | Cyflwynwyd dadansoddiad o gefndir ieithyddol pob ysgol ar sail gwybodaeth a gasglwyd wrth baratoi pecyn ystadegau cyflawn. Cafwyd cyfle i herio'r dystiolaeth, a gwnaethpwyd hynny gan rai yn ystod y trafodaethau dalgylch. Cytunwyd ar y dadansoddiad yn dilyn hynny. Rhoddwyd ystyriaeth wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer y dalgylch i dynnu ysgolion ieithyddol tebyg at ei gilydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gilydd yn mynd i gryfhau defnydd cymdeithasol ac anffurfiol o'r Gymraeg | | Comisiynwyd Asesiad o Effaith Ieithyddol yr amryw fodelau a ystyriwyd yn y dalgylch wrth ddatblygu'r cynnig hwn. Cyflawnir hyn yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru yng *Nghylchlythyr 021/2009*. Cyhoeddir yr adroddiad cyfan ar wefan y Cyngor. O ran y cynnig hwn o sefydlu'r Ysgol Ardal, noda'r Asesiad Iaith y byddai sefydlu'r model hwn yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.<br><br>Yn ystod yr ymgynghoriad mynegwyd pryder gan rai fod cau rhai o'r ysgolion yn mynd i gael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.<br><br>Mae dyfarniad sgôr asesiad Ysgol Ardal wledig (Brithdir, Machreth ac Ieuan Gwyned) ar un safle a disgyblion Dinas Mawddwy ar safle arall) yn +6 Cadarnhaol. Nodir fod defnydd cymdeithasol iach o'r Gymraeg ymhob un o'r ysgolion - yn arbennig y tair ysgol fydd yn uno ar un safle. Nodwyd yn ogystal y gall y cynnig fod yn fodd o atgyfnerthu'r Gymraeg. Daw'r asesiad i ganlyniad felly y byddai Ysgol Ardal yn fodd o atgyfnerthu'r Gymraeg a hynny mewn sefydliad mwy gallai ddatblygu'n bwerdy ieithyddol cadarnhaol. |
| 7.2 | Ysgol Brithdir yn gwella'r Cymraeg mewn disgyblion sydd gyda rhieni di-Gymraeg mewn amser byr iawn | 1 | |
| 7.3 | Iaith Gymraeg yn ardderchog yn Ysgol Machreth i feddwl bod o'n ail iaith i rhai blant / Cau Machreth am cael effaith negyddol ar Cymraeg Llanfachreth | 2 | |
| 7.4 | Rydym yn pryderu na fydd yr addysg yn parhau yn Gymreig a gwledig oherwydd atyniad adeilad newydd ym Mrithdir i blant o'r dref. | 1 | |
| 7.5 | Pryderu y byddai cau'r ysgol yn niweidiol i'r Gymraeg yn ardal Llanfachreth | 1 | Mae nifer o gymunedau gwledig yn wynebu'r sefyllfa hon. Yn addysgol mae'r asesiad ardrawiad ieithyddol yn nodi mai effaith cadarnhaol fydd sefydlu'r Ysgol Ardal. Bydd yn her i'r gymuned a'r corff llywodraethol sicrhau fod yr ysgol yn chwarae rôl allweddol yn sicrhau parhad yr iaith yn yr ardal. |
| 7.6 | Oes rhagdybiaeth mai drwy'r Gymraeg fydd y prif gyfarwyddyd? | 1 | Oes – gan ddilyn polisi iaith yr Awdurdod. |
| | | | |
| **8** | **Darpariaeth Ysgolion "Eglwys"** | | |
| 8.1 | Addysg eglwysig ar gael yn Ysgol Gynradd Dolgellau i'r rhieni a disgyblion hynny sy'n ei ddymuno yn sgil cau Ysgol Machreth (er nad yw'r ddogfen yn nodi agwedd yr awdurdodau esgobaethol i'r cynigion hyn) | 1 | Yn unol a'r broses Ymgynghori Statudol mae'r Esgobaeth wedi cyflwyno eu sylwadau i'r Awdurdod parthed y cynnig yma. Mae'r Esgobaeth yn nodi eu bod yn awyddus iawn i ddarpariaeth Eglwysig barhau yn nalgylch y Gader. |
| 8.2 | Dwy ysgol Eglwys yng Nghymru yn nalgylch Y Gader, Ysgol Machreth a Ysgol Cynradd Dolgellau sydd yn darparu 43% o gapasiti cynradd (derbyn i blwyddyn 6) o ddalgylch Ysgol Y Gader.<br><br>Wrth hollti ad-drefnu'r dalgylch i tri rhan, er bod yr | 1 | Mae'r ddwy ysgol yn darparu capasiti cynradd o 43% ar gyfer dalgylch Y Gader, (sef y nifer o lefydd sydd ar gael yn yr ysgolion) serch hynny, fel % o ddefnydd yr ysgolion maent hefyd yn cyfrannu tuag 40% o holl lefydd gwag y dalgylch.<br><br>Pan ddaw'r amser i benderfynu ar drefniant addysg yn Nolgellau byddai'n rhaid ystyried canlyniadau yr ymgynghoriad yma cyn dod i benderfyniad. Mae'r Awdurdod a'r Esgobaeth yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Esgobaeth yn deall y rhesymeg, mae'r Awdurdod wedi hollti'r ddarpariaeth enwadol bresennol. Rhaid i'r esgobaeth ymateb i Rhybuddion Statudol yn seiliedig ar sefyllfaoedd bendant, yn ddibynnol ar drafodaethau yn yr wythnosau nesaf yn y tref mae'n bosib bydd rhaid i'r Esgobaeth ymateb yn negyddol i Rhybuddion Statudol yn seiliedig ar y cynnig hon. Yn unol a'r ysbryd gydweithio dydy'r Esgobaeth dim eisiau gorfod gwneud hyn. Byddai'n defnyddiol iawn i'r Esgobaeth petai'r materion ynglŷn a'r Ysgol Gydol Oes arfaethedig yn Nolgellau yn cael ei datrys cyn cyhoeddi'r Rhybuddion Statudol yn deillio o'r cynnig hwn. Bosib i statws Gymunedol cael ei roi ar yr Ysgol Gydol Oes a gyda Ysgol Machreth yn cau buasai hyn yn golygu bod darpariaeth enwadol yn nalgylch Y Gader yn cael ei ddileu – Awdurdod yn cydnabod byddai'r Esgobaeth yn gwrthwynebu hyn yn gryf | | parhau i gydweithio a thrafod opsiynau posib ar gyfer addysg yn nhref Dolgellau ar wahân i'r cynnig yma.<br><br>Gan ddilyn canllawiau'r Cylchlythyr 029/2009 bydd angen cydbwyso darpariaeth a'r angen am addysg a nodwedd grefyddol o fewn y dalgylch fel rhan o unrhyw broses ynglyn ag ad-drefnu'r ddarpariaeth yn nhref Dolgellau (h.y. Ysgol Gynradd Dolgellau ac Uwchradd Y Gader). Serch hynny, gyda'r ymgynghori ar y ddarpariaeth o fewn y 4 ysgol yma mae'r sefyllfa yn yr ysgolion yma yn arwain at y cynnig fel yn y ddogfen Ymgyngori Statudol. |
| 8.3 | Esgobaeth wedi bod yn darparu addysg i'r pentref a phlwyf Llanfachreth ers 1847 – gan fod Ysgol eglwys arall mor agos na ellir yr Esgobaeth weld unrhyw rheswm i ddod a'r darpariaeth hon i ben petai Ysgol Machreth yn cau | 1 | Mae'r Cyngor yn cydnabod fod angen parhau â'r trafodaethau ynglŷn a'r sefyllfa yn y dref, a bod angen ystyried yr angen i gynnal darpariaeth Eglwysig o fewn yr ardal.<br><br>Pan ddaw'r amser i benderfynu ar drefniant addysg yn Nolgellau byddai'n rhaid ystyried canlyniadau yr ymgynghoriad yma cyn dod i benderfyniad. Mae'r ymgynghoriad yma yn cydnabod nad yw'r ddarpariaeth yn Ysgol Machreth (boed yn eglwysig neu arall) yn gynaliadwy. Ymgynghorir felly ar gynnig sydd yn ymateb i'r ffaith nid yw'r ysgol yn gynaliadwy. Bydd adnabod a diwallu angen am lefydd/addysg 'eglwysig' yn ffactor bwysig wrth ystyried darpariaeth Ysgol Gynradd Dolgellau.<br><br>Mae'r Awdurdod a'r Esgobaeth yn parhau i gydweithio a thrafod opsiynau posib ar gyfer addysg yn nhref Dolgellau ar wahân i'r cynnig yma. |
| 8.4 | Adroddiad diweddar Adran 50 Ysgol Machreth yn awgrymu bod gofyn am ddarpariaeth Ysgol Eglwys yn yr ardal | 1 | Er nad oes rhan penodol yn amlygu'r 'gofyn am ddarpariaeth ysgol eglwys yn yr ardal' mae adroddiad Adran 50 gan Esgobaeth Bangor yn dangos fod cefnogaeth glir i'r ysgol gan rieni a'r gymuned. Derbyniodd yr ysgol yr adroddiad yn Chwefror 2010. |
| 8.5 | Rhiant eisiau anfon plant i ysgol wledig Eglwys yng Nghymru a nid yw Dolgellau'n opsiwn hyfyw | 1 | Yn unol a'r canllawiau o fewn *Cylchlythyr 029/2009 Trefniadaeth Ysgolion* mae'r Awdurdod wedi ystyried ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Machreth (ac iddi nodwedd grefyddol ddynodedig) o fewn ei Strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Wrth ystyried canllawiau'r *Cylchlythyr 029/2009* (rhan 1.25) sy'n nodi *"Mewn rhai ardaloedd mae'n bosib na fydd yn gydnaws â darpariaeth gost effeithiol i gynnal ysgolion grefyddol"* – mae'r Awdurdod yn cytuno gyda datganiad Esgobaeth Bangor pan nodai *"Oherwydd y niferoedd presennol, mae'r Esgobaeth yn sylweddoli bod Ysgol Machreth yn anghynaladwy am sawl rheswm"*.<br><br>Mae 2 ysgol 'Eglwysig' yn yr ardal sydd 3.8 milltir oddiwrth ei gilydd. Mae Ysgol Machreth mewn sefyllfa fregys iawn gyda 16 o ddisgyblion ar ei chofrestr. Yn nhref Dolgellau mae'r ysgol gynradd eglwysig yn y fan honno llawer mwy cynaliadwy gyda 149 ar y gofrestr.<br><br>Mae darpariaeth ysgol â nodwedd crefyddol yn ddewis yn Ysgol Gynradd Dolgellau. Petai'r dewis o dderbyn addysg wledig yn gorbwyso hyn yna bydd dewis rhiant i fynychu'r ysgol ardal arfaethedig yn ystyriaeth. Yn yr achos unigryw yma ble mae rhiant yn dymuno'r cyfuniad o'r ddau h.y. 'ysgol wledig Eglwys yng Nghymru' ni fydd y cynnig yma lle ymgynghorir arni yn diwallu'r dymuniad yma. |
| 8.6 | Pryder na fyddai ysgol wledig Eglwysig yn yr ardal ac angen sicrhau fod trafodaethau'r dref yn arwain at hynny | 4 | Mae'r Cyngor yn cydnabod fod angen parhau â'r trafodaethau sydd yn cyd-ddigwydd yn y dref, a bod angen ystyried yr angen i gynnal darpariaeth Eglwysig o fewn yr ardal.<br><br>Pan ddaw'r amser i benderfynu ar drefniant addysg yn Nolgellau byddai'n rhaid ystyried canlyniadau yr ymgynghoriad yma cyn dod i benderfyniad. Ymgynghorir felly ar gynnig sydd yn ymateb i'r ffaith nid yw'r ysgol yn gynaliadwy. Bydd adnabod a diwallu angen am lefydd/addysg 'eglwysig' yn ffactor bwysig wrth ystyried darpariaeth Ysgol Gynradd Dolgellau.<br><br>Mae'r Awdurdod a'r Esgobaeth yn parhau i gydweithio a thrafod opsiynau posib ar gyfer addysg yn nhref Dolgellau ar i'r cynnig yma. |
| | | | |
| **9** | **Proses Ymgynghori Statudol** | | |
| 9.1 | Esgobaeth yn croesawu'r perthynas cydweithio da sydd wedi datblygu fel rhan o'r broses ac yn edrych ymlaen at ei ddatblygu'n ymhellach pan ddaw ad-drefnu dalgylchoedd eraill | 1 | |
| 9.2 | Wedi cael cyfle gweld dyluniadau a cynlluniau posib yn y cyfarfod statudol a roedd llawer o'n cwestiynau wedi ei hateb mewn modd cadarnhaol a llawn – digonedd o le | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chwarae wedi ei gynllunio yn brawf eich bod o ddifrif ynglŷn a'r cynllun | | |
| 9.3 | Siomedig mai dyma'r tro cyntaf i drigolion yr ardal gael gwybodaeth swyddogol am ad-drefnu arfaethedig a ni chafwyd gyfle i fynegi barn cyn i Bwrdd y Cyngor rhoi'r cynnig gerbron. Tristwch oedd darllen y cynnig hwnnw yn y wasg. | 1 | Sefydlwyd PAD Y Gader yn ystod Ebrill 2010. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Panel ar 29 Ebrill 2010. Cynhaliwyd 5 cyfarfod pellach ar 13 Mai 2010, 25 Mai 2010, 6 Gorffennaf 2010, 25 Mai 2011 ac 13 Mehefin 2011.<br><br>Cynhaliwyd ymweliad â phob ysgol yn y dalgylch gan y Deilydd Portffolio Addysg a chynrychiolydd y Panel Ymgynghorol Sirol ar gychwyn y broses.<br><br>Cynhaliwyd un cylch o gyfarfodydd gydag ysgolion unigol yn ystod y broses, yn ystod cyfnodau 7 Mehefin - 23 Mehefin 2010. Estynnwyd gwahoddiad agored i staff, llywodraethwyr a rhieni i fynychu cyfarfodydd ar wahân. Bu cyfle i drafod materion cyffredinol gan gynnwys y modelau penodol oedd dan sylw.<br><br>Paratowyd newyddlenni i'w cylchredeg i bob ysgol yn ystod y trafodaethau dalgylch. Anfonwyd copïau caled at yr ysgolion i'w cylchredeg i bob rhiant, e-bostiwyd y newyddlen at bob ysgol a chyhoeddwyd y newyddlenni ar wefan y Cyngor.<br><br>Cyhoeddwyd holl bapurau'r PAD ar wefan y Cyngor.<br><br>Rhoddwyd manylion cyswllt swyddogion oedd yn ymwneud â'r gwaith ar y wefan.<br><br>Cyhoeddwyd adroddiad Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc, adroddiad Bwrdd y Cyngor, adroddiad y Cyngor Llawn oedd yn amlinellu cyfeiriad y trafodaethau lleol a democrataidd ynglŷn ag ad-drefnu arfaethedig yn yr ardal. Mae trafodaethau ynglŷn ag ad-drefnu yn yr ardal wedi eu cychwyn cyn belled ag Ebrill 2010 yn yr ardal.<br><br>Dyma yw'r cyfnod swyddogol o allu rhoi barn ar y cynnig – sef y cyfnod Ymgynghorol Statudol. Yn aml wrth gyhoeddi papurau ymgynghori statudol mae'r wasg yn cyhoeddi eu cynnwys yn fuan iawn ac o fewn y diwrnodau cyntaf o'r cyhoeddiad. Bu i'r ysgolion a'r cyrff statudol eraill sy'n ofynnol ymgynghori a nhw eu derbyn diwrnod cyn y dyddiad agor y cyfnod yn swyddogol. |
| 9.4 | Nid yw Safle presennol Ysgol Ieuan Gwynedd wedi cael ystyriaeth deg a bod rhai sylwadau camarweiniol yn y | 1 | Nid yw'r Awdurdod o'r farn fod sylwadau camarweiniol yn y ddogfen. Mae'r safle yn Ysgol Ieuan Gwynedd wedi derbyn yr un ystyriaeth a safle Brithdir drwy'r un drefn ymgynghori. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddogfen ymgynghori | | Dylid cadw mewn cof mai sylwadau cyflawn a heb eu newid o ddadansoddiadau SWOT aelodau'r Panel Adolygu Dalgylch yw nifer o'r sylwadau sydd yn cael eu hadrodd yn y ddogfen ymgynghori sydd yn crisialu barn trigolion lleol ac eraill ac nid barn neu sylwadau unigryw'r Awdurdod.<br><br>Bu i Fwrdd y Cyngor ystyried mater lleoliad y prif safle yn ei gyfarfod ar 11 Hydref 2011, gan bwyso a mesur p'un ai penderfynu ar safle presennol Ysgol Brithdir neu safle presennol Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain. Wrth gloriannu'n ofalus y ffactorau technegol; y ffactorau eraill sy'n berthnasol wrth ystyried datblygu ysgol ardal; sylwadau'r PAD a sylwadau'r Aelodau Lleol; argymhellwyd ymgynghori ar sail y bwriad i sefydlu un o safleoedd yr Ysgol Ardal ar safle presennol Ysgol Brithdir. |
| 9.5 | Dogfen ymgynghorol yn drylwyr iawn yn rhoi llawer o wybodaeth manwl | 1 | |
| 9.6 | Ymgynghoriad statudol cyntaf yn cynnwys Awdurdod Addysg Esgobaethol gyda Ysgol Eglwys wirfoddol dan reolaeth – profiad newydd i'r Esgobaeth a'r Awdurdod Lleol | 1 | Cyngor wedi ymgynghori'n statudol yn cynnwys Ysgol Eglwys gwirfoddol dan reolaeth yn ystod y blwyddyn diwethaf. Mae profiad gan y Cyngor o ymgynghori dan y fath yma o amgylchiadau yn eithaf diweddar – er enghraifft yn ardal y Bala. Esgobaeth Llanelwy oedd yn cyd-weithio gyda'r Awdurdod yn yr achos hynny.<br>Mae swyddogion yr Awdurdod wedi cyd-weithio yn agos iawn gyda cynrychiolwr yr Esgobaeth (Cyfarwyddwr Addysg Esgobaeth Bangor) drwy gydol y broses fel nodai pwynt 9.1 |
| 9.7 | Ni chafodd yr Esgobaeth rhybudd swyddogol gan yr Awdurdod am ddyddiadau'r ymgynghoriad a na chafodd yr Esgobaeth cyfle i adolygu, cynnig sylwadau neu drafod y ddogfen ymgynghorol cyn i'r Awdurdod ei gyhoeddi. Nid yw hyn yn cydymffurfio a dealltwriaeth yr Esgobaeth o ganllawiau Llywodraeth Cymru (021-2009, para 1.25) neu ysbryd ddogfen *Ffydd mewn Addysg* | 1 | Darparwyd copi o'r ddogfen Ymgynghorol Statudol ynghyd a llythyr swyddogol oedd yn nodi'n glir y dyddiadau perthnasol i gynrychiolaeth Esgobaeth Bangor (Swyddog Addysg yr Esgobaeth) fel agoriad i'r cyfnod ymgynghori hynny yn unol a dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor.<br><br>Mae rhan 1.25 o'r *Cylchlythyr 029/2009* Llywodraeth Cymru yn nodi:<br>*"1.25 Wrth benderfynu ar gynigion i gau ysgolion â nodwedd grefyddol ddynodedig, bydd angen i'r rhai sy'n cyflwyno'r cynigion ystyried yr effaith ar gydbwysedd y ddarpariaeth mewn ysgolion â'r nodwedd honno ac ysgolion heb y nodwedd honno. Mewn rhai ardaloedd mae'n bosibl na fydd yn gydnaws â darpariaeth gost effeithiol i gynnal ysgolion â nodwedd grefyddol ac ysgolion heb nodwedd grefyddol, ond rhaid ymdrin mewn modd sensitif â chynigion i newid cydbwysedd y ddarpariaeth, a dylai'r cynigion adlewyrchu cydbwysedd y galw os oes modd."*<br><br>Mae'r Awdurdod yn cynnwys yr Esgobaeth mewn trafodaethau eang yn ystod y broses mewn amgylchiadau ffurfiol ac anffurfiol. Mae cynrychiolaeth yr Esgobaeth wedi bod yn aelod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | llawn o'r Paneli Adolygu Dalgylch; y Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion (o blith cynrychiolaeth aelodau etholedig o bob plaid a swyddogion); aelod o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ac wedi cydweithio a thrafod yn eang gyda swyddogion perthnasol drwy'r cyfnod trafodaethau anffurfiol (o 2010) ac Ymgynghoriad Statudol y cynnig hwn. Roedd modd rhoi mewnbwn llawn ar ddatblygiadau cynigion yn ystod unrhyw un o'r cyfarfodydd a chodi pryderon fel yn addas mewn awyrgylch agored yn lleol. |
| 9.8 | Esgobaeth yn credu bod y ddogfen ymgynghorol yn rhoi dadansoddiad annigonol o gymeriad crefyddol Ysgol Machreth a'i gadwraeth neu ei golled yn y cynigion. Na ddefnyddir y pennawd cywir – nid yw statws grefyddol yr un peth a chymeriad crefyddol (dim rhaid i ysgol wirfoddol cael cymeriad crefyddol er bod rhan fwyaf yn). Ddylai rhan hwn datgan rhywbeth am bartneriaeth addysg yr eglwys a'r Wladwriaeth a dangos yn eglur ymrwymiad yr Awdurdod a'r Esgobaeth i'r bartneriaeth hon | 1 | Mae'r Cyngor wedi dilyn canllawiau cenedlaethol yn unol a *Cylchlythyr 029/2009* a Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 wrth ddatblygu'r ddogfen ymgynghori.<br><br>Ar gyfer ceisio barn pawb sydd â diddordeb mae'r Cyngor wedi cynnwys nodwedd grefyddol Ysgol Machreth o fewn y ddogfen ymgynghorol statudol yn rhannau 3.4; 3.5; 5.11; a 7.3.3. Yn ogystal, er mwyn adnabod barn rhieni, staff a llywodraethwyr pob ysgol o fewn y cynnig mae'r mater wedi ei godi fel pwynt penodol o drafod ym mhob un o'r ysgolion hynny o fewn cyflwyniadau'r cyfarfodydd.<br><br>Yn unol a'r canllawiau hynny mae'r Awdurdod wedi ystyried ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Machreth (ac iddi nodwedd grefyddol ddynodedig) o fewn ei Strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd.*<br><br>Wrth ystyried canllawiau'r *Cylchlythyr 029/2009* (rhan 1.25) sy'n nodi *"Mewn rhai ardaloedd mae'n bosib na fydd yn gydnaws a darpariaeth gost effeithiol i gynnal ysgolion grefyddol"* – mae'r Awdurdod yn cytuno gyda datganiad Esgobaeth Bangor pan nodai *"Oherwydd y niferoedd presennol, mae'r Esgobaeth yn sylweddoli bod Ysgol Machreth yn anghynaladwy am sawl rheswm"*.<br><br>Wrth ystyried y galw am ddarpariaeth addysgol â nodwedd grefyddol yn unol a rhan 1.23 o'r Cylchlythyr, mae'r Awdurdod wedi ystyried (o fewn ei strategaeth) fod y nifer o lefydd gweigion sydd gan yr ysgolion â nodwedd grefyddol yr ardal (Ysgol Gynradd Dolgellau ac Ysgol Machreth) yn 79. Cynrychiola hyn 40% o holl lefydd gweigion holl ysgolion cynradd dalgylch Y Gader.<br><br>Dylid nodi nad oes ceisiadau penodol am lefydd yn Ysgol Machreth wedi eu derbyn gan yr Awdurdod ar sail ei fod yn ysgol â nodwedd crefyddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Yn ystod y broses ymgynghori bu i 3 rhiant godi'r mater (dau mewn llythyr ac 1 yn y cyfarfod rhieni yn Ysgol Machreth). Yn ogystal yn y cyfarfod llywodraethwyr yn Ysgol Machreth fe gododd y mater gan y llywodraethwr sylfaenol (Yr Eglwys yng Nghymru) a derbyniwyd llythyr ganddo yn ogystal. |
| 9.9 | Paragraff 5.11.2 yn hollol anfoddhaol gan yr Esgobaeth wrth ddefnyddio'r geiriau 'yn bresennol' sydd yn achosi bobl meddwl bydd darpariaeth enwadol yn Nolgellau yn parhau – sydd, pêl mae pethau'n sefyll, yn ansicr | 1 | Darllena pwynt 5.11.2 o fewn y ddogfen ymgynghorol statudol fel a ganlyn:<br>*"5.11.2 Yn bresennol yn y dalgylch, mae Ysgol Gynradd Dolgellau yn cynnig darpariaeth Eglwysig. Golyga hyn y byddai darpariaeth Eglwysig o fewn dalgylch Y Gader i ddisgyblion/rhieni sy'n awyddus i ddewis addysg enwadol."*<br><br>Gad nad oes penderfyniad wedi ei wneud ar sefyllfa yn Nolgellau mae'r paragraff 5.11.2 yn cyfeirio tuag at y sefyllfa fel y gwyddwn ar adeg yr ymgynghori- sef yn bresennol. |
| 9.10 | Cynnwys 'Statws Cyfreithiol' yn paragraff 5.3.1 yn awgrymu bod yr Awdurdod yn ystyried bod darpariaeth Ysgol Eglwys ddim yn bwysig gan ei fod yn nodi yn 5.11.3 byddai'r Ysgol Ardal yn ysgol gymunedol heb statws eglwysig | 1 | Darllena pwynt 5.3.1 o fewn y ddogfen ymgynghorol statudol fel a ganlyn:<br>"***5.3 Pam Argymell Ysgol Ardal?***<br>*5.3.1 Argymhellir sefydlu Ysgol Ardal yn y rhan yma o'r dalgylch ar ôl ystyried nifer o ffactorau, sydd yn cynnwys;*<br>*• Maint dosbarthiadau*<br>*• Niferoedd disgyblion*<br>*• Amgylchedd ac ansawdd dysgu*<br>*• Arweinyddiaeth a staffio*<br>*• Y Gymuned*<br>*• Yr Iaith Gymraeg*<br>*• Adnoddau Ariannol*<br>*• Statws Gyfreithiol*<br>*• Ffactorau Daearyddol*<br>*• Addasrwydd adeiladau*<br><br>*Rhoddir ystyriaeth i'r ffactorau hyn ac eraill yng ngweddill y ddogfen".*<br><br>Darllena pwynt 5.11.3 o fewn y ddogfen ymgynghorol statudol fel a ganlyn:<br>*"5.11.3 Bydd dalgylch presennol Ysgol Machreth yn dod yn rhan o ddalgylch yr Ysgol Ardal newydd os gweithredir y cynnig hwn."*<br><br>Mae Statws Gyfreithiol (sef ysgol gymuned neu wirfoddol) ar ddarpariaeth eglwysig wedi bod, ac yn parhau i fod yn un o'r prif ystyriaethau wrth gyflwyno'r cynnig yma. Mae'r Awdurdod yn awyddus iawn ymgynghori ynglŷn a'r pwynt yma ac felly mae'n ffactor amlwg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn y ddogfen ymgynghori er mwyn derbyn sylwadau trigolion ac eraill (gweler ymateb uchod).<br><br>Er o'r 4 ysgol yn yr ymgynghoriad bod 84% o ddisgyblion presennol yn mynychu ysgolion cymunedol, mae'r Awdurdod yn parhau i ystyried darpariaeth Eglwysig fel ffactor bwysig. Ni godwyd pryderon ynglŷn a'r ddarpariaeth Eglwysig nag effaith unrhyw gynigion ar y ddarpariaeth honno gan aelodau'r PAD yn lleol. Yn ystod cyfarfodydd ymgynghori statudol yn yr ysgolion (gyda staff, llywodraethwyr a rhieni y 4 ysgol) codwyd y mater yn Ysgol Llanfachreth gan llywodraethwr sylfaenol (cynrychiolwr Eglwys yng Nghymru) yr ysgol sef:<br>*Soniwyd bod darpariaeth Eglwysig yn cael ei ddarparu yn Ysgol Cynradd Dolgellau ond mae trafodaethau i greu Ysgol Gydol Oes. Beth am y dyfodol? Oes sicrwydd bydd y ddarpariaeth Eglwysig yn parhau? Dogfen ymgynghorol yn nodi ar hyn o bryd bod y ddarpariaeth yno ond ddim yn crybwyll y dyfodol.*<br><br>Mae trafodaethau yn parhau gyda'r trefniadau yn nhref Dolgellau, ac nid oes modd gallu rhagdybio beth fydd canlyniad y trafodaethau. Cytunodd cynrychiolwr Esgobaeth Bangor bod trafodaethau yn digwydd a'i fod yn rhan ohonynt. Ychwanegodd ei fod yn hyderus y bydd darpariaeth Eglwysig yn Dolgellau ar ddiwedd y broses.<br><br>Yn ogystal codwyd y pwynt yng nghyfarfod rhieni Llanfachreth fel a ganlyn:<br>*Ni fydd yr ysgol ardal yn ysgol Eglwysig Cymraeg bydd y ddarpariaeth yna'n cael ei golli.*<br><br>Bydd Ysgol Cynradd Dolgellau yn darparu addysg Eglwysig yn yr ardal. Mae polisi iaith y Cyngor yn weithredol yn Ysgol Gynradd Dolgellau fel pob ysgol yn y Sir. |
| 9.11 | Creda'r Esgobaeth byddai wedi bod yn briodol i'r Awdurdod gynnig cyfarfod ymgynghorol swyddogol gyda'r Esgobaeth – ei Hesgob, ei Bwrdd Addysg Statudol a'i Ymddiriedolwyr Esgobaethol, er mwyn rhoi cyfle i'r Esgobaeth fynegi ei bryderon a'u trafod gyda'r Awdurdod | I | Mae'r Awdurdod yn fodlon iawn trafod gyda'r Esgobaeth ar bob cyfle. Er ni dderbyniwyd cais swyddogol gan yr Esgobaeth yn ystod y cyfnod PAD nac o fewn y cyfnod ymgynghorol statudol byddai'r Awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol i'r gwahoddiad.<br><br>Yn unol a dilyn canllawiau'r *Cylchlythyr 029/2009* nid oes rheidrwydd a'r yr Awdurdod i gynnal math yma o ymgynghoriad ac mae'r broses cydnabyddedig a statudol (sef y broses ymgynghorol statudol yma) yn cael ei ddefnyddio yn deg i bob corff ac unigolyn er mwyn ymgynghori ar y cynnig.<br><br>Serch hynny, mae'r Awdurdod wedi cyd-weithio yn agos iawn gyda cynrychiolwr yr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Esgobaeth (Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth) drwy gydol y broses.<br>Ers cychwyn y trafodaethau buan (PAD) mae cynrychiolaeth yr Eglwys yng Nghymru o Esgobaeth Bangor wedi bod yn rhan llawn o drafodaethau yn y dalgylch. Fel cynrychiolaeth y Panel un o'r prif ddyletswyddau (fel sydd ar aelodau eraill) yw adrodd yn ôl i'r personau priodol o drafodaethau'r cyfarfodydd hynny. Estynnwyd gwahoddiad i bob cynrychiolaeth godi pwyntiau a chysylltu a'r Awdurdod yn ystod pob cam o'r broses os am fwy o wybodaeth neu ceisiadau eraill.<br><br>Byddai modd ystyried cais a dderbyniwyd gan gorff lle bydd yn rhaid ymgysylltu â hwy yn unol a threfn arferol ac o fewn canllawiau'r *Cylchlythyr 029/2009*.<br><br>Mae'r Awdurdod yn cynnwys yr Esgobaeth mewn trafodaethau eang yn ystod y broses<br>Mae cynrychiolaeth yr Esgobaeth wedi bod yn aelod llawn o'r Paneli Adolygu Dalgylch; y Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion (o blith cynrychiolaeth aelodau etholedig o bob plaid a swyddogion); aelod o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ac wedi cydweithio a thrafod yn eang gyda swyddogion perthnasol drwy'r cyfnod trafodaethau anffurfiol (o 2010) ac Ymgynghoriad Statudol y cynnig hwn. |
| 9.12 | Ni chafodd ddarpar rhieni eu gynnwys yn yr ymgynghoriad oherwydd bod eu plentyn mewn meithrinfa lleol yn hytrach na dosbarth meithrin mewn un o'r ysgolion. Nodwyd bod hyn yn annheg oherwydd bod y cynnig yn uniongyrchol effeithio'r plant yna. | 1 | Bu i bob meithrinfa lleol dderbyn copiau o'r ddogfen Ymgynghorol Statudold. Yn ogystal darparwyd nifer fawr o ychwanegol i bob ysgol ac i'r llyfrgell yn Nolgellau. Yn ogystal cyhoeddwyd y holl ddogfennaeth gan gynnwys y ddogfen ymgynghori statudol ar wefan y Cyngor.<br><br>O ran cyfarfodydd yn yr ysgolion a'u heffeithir mi roddwyd gwahoddiad penodol i staff, llywodraethwyr a rhieni yr ysgolion hynny er mwyn gallu darganfod union farn y gynulleidfa hynny. Mewn rhai o'r ysgolion bu i aelodau ehangach o'r gymuned fynychu'r cyfarfodydd rhieni a ni fu rhwystr i'w presenoldeb ar y nosweithiau gan yr ysgolion na'r Awdurdod . |
| 9.13 | Mae symud ymlaen gyda un ochr y dalgylch o flaen y llall yn anwastad ac yn annerbyniol. Mae hyn yn achosi problemau a dylid delio â'r ysgolion yr un fath. | 2 | Yn ystod trafodaethau yn y dalgylch, gwelwyd yr angen i edrych ar y dalgylch fesul rhan am y rhesymau canlynol:<br>• Lleoliad daearyddol ac amseroedd teithio<br>• Dymuniad lleol yn nodi na fyddai ysgol fawr wedi ei chanoli ar gyfer y dalgylch cyfan yn cael ei chefnogi<br>• Rhesymau datblygu safleoedd ac adeiladu<br>• Amcanion Strategaeth Ad-drefnu y Cyngor yn enwedig felly o ran sicrhau datblygu ysgolion i fod yn sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Penderfynwyd fod angen blaenoriaethu sefyllfa ochr ddwyreiniol o ddalgylch Y Gader am y rhesymau canlynol:<br><br>• 4 ysgol yn yr ardal yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio Mae cyfanswm y swm ychwanegol hwn yn £111,616 rhwng y 4 ysgol<br><br>• Dyrennir cyfanswm o £593,916 i'r 4 ysgol yn y rhan yma o dalgylch Y Gader yn 2011/12. Mae hyn gyfystyr â £5883 fesul disgybl ar gyfartaledd, Mae amrediad rhwng ysgolion o £3910 (Brithdir) i £7519 (Ieuan Gwynedd). Amrediad cyfartaledd sirol am y cyfnod hwn ydyw £3,352.<br><br>• Rhagolygon niferoedd mewn 3 o'r ysgolion yn creu pryder.<br><br>• Nifer o lefydd gweigion (94 mewn nifer) - 43% o fewn y 4 ysgol neu 58% heb ystyried sefyllfa ysgol Brithdir. Mae hyn yn golygu, wrth ystyried llefydd gweigion ysgolion Ieuan Gwynedd, Llanfachreth a Dinas Mawddwy fod mwy o lefydd gweigion na sydd o blant yn mynychu'r ysgolion.<br><br>• Capasiti ysgol Brithdir yn orlawn (Mae 45 disgybl mewn ysgol â chapasiti i 38)<br><br>• Ysgol Dinas Mawddwy yn ddaearyddol ynysig ac yn darparu addysg ar gyfer ardal eang.<br><br>• Yn ogystal, ar y pryd roedd ansicrwydd ynglŷn a sefyllfa arweinyddiaeth 2 ysgol o ganlyniad i drosiant staff<br><br>Roedd achos clir a'r angen i sicrhau sefydlogrwydd tymor hir i'r darpariaeth addysg yn yr ardal wledig yn rhan yma o'r dalgylch. |
| 9.14 | Wedi siomi yn y diffyg cefnogaeth gan y 2 Gynghorydd lleol | 1 | Cofnodwyd barn yr Aelodau Lleol yng nghyfarfod o'r Cyngor Llawn 14/07/2011 ac yng nghyfarfod y Bwrdd 11/10/2011. |
| 9.15 | Anfodlon na chafodd sylwadau'r PAD eu cynnwys yn eu crynswth yn yr ymgynghoriad statudol nac ychwaith yn Adroddiad y Bwrdd yn y ddogfen swmpus. Roedd sylwadau llawn y PAD yn amlygu cryfderau ysgol Ieuan | 2 | Cafodd holl sylwadau/cofnodion cyfarfodydd PAD a dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau) eu cynnwys yn llawn o fewn adroddiadau swmpus i Fwrdd y Cyngor a'r 11/10/11. Yn wir mae dau gopi gwahanol o ddadansoddiadau SWOT i'w gweld sef sylwadau SWOT gan aelodau'r PAD ac yna dadansoddiad SWOT yr Awdurdod yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwynedd. | | ogystal.<br>Yn ogystal rhoddwyd crynodeb o'r sylwadau yma i gyd o fewn y ddogfen Ymgynghorol Statudol ac ynddi rhoddwyd mannau cyfeirio at y ddogfennaeth sydd yn cyd fynd a'r crynodeb. Ni fyddai wedi bod yn rhesymol i gynnwys yr holl wybodaeth swmpus o fewn y ddogfen Ymgynghorol o ran ymarferoldeb a phrif bwrpas y ddogfen honno. Mae'r wybodaeth lawn, ynghyd a chofnodion y cyfarfodydd PAD, dadansoddiadau SWOT, adroddiadau Bwrdd y Cyngor a'r holl wybodaeth gefndirol ar gael ar wefan y Cyngor a llyfrgell Dolgellau a'r 4 ysgol neu drwy gysylltu a'r Swyddfa Trefniadaeth Ysgolion. |
| 9.16 | Mae'r ymgynghoriad yn cynnig cau ysgol Llanfachreth oherwydd y niferoedd, nid yw'r ffaith bod y bygythiad o gau'r ysgol wedi bodoli ers blynyddoedd wedi helpu hyn. | I | Mae'n wir nodi fod y broses o adolygu darpariaeth addysgol yn achosi ansicrwydd mewn ardal. Serch hynny, o ystyried sefyllfa yr ysgol ers sawl blwyddyn, a hynny cyn trafodaethau ad-drefnu ysgolion, mae'r patrwm o leihad niferoedd wedi bodoli ac yn fater o bryder. Mae'r un bygythiad wedi bodoli ar Ysgol Brithdir dros yr un cyfnod, serch hynny nid yw'r effaith tebyg wedi amlygu ei hun ar y sefydliad hwnnw – yn wir mae'r gwrthwyneb wedi digwydd ble gwelir cynydd yn y niferoedd. |
| 9.17 | Dylai ffeithiau am niferoedd plant, lleoliadau anheddau ac ysgolion, ac unrhyw wahaniaethau fod ar gael i bob rhiant, llywodraethwr, staff ysgol ac aelodau lleol | I | Mae'r manylion yma ar gael yn llawn mewn pecyn cynhwysfawr o wybodaeth sydd ar gael ym mhob un o'r ysgolion, ar wefan y Cyngor – union gyfeiriad: http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=7329&doc=25330&Language=2; mewn llyfrgelloedd lleol ac yn cael eu darparu i bob aelod lleol. Maent wedi bod yn sail i ddatblygu cynigion o fewn cyfarfodydd PAD a drwy'r broses gyflawn.<br>Mae manylion ar sut i gael gafael ar y ddogfennaeth yma ar dudalen 3 ac ym mhwynt 1.10 o'r ddogfen Ymgynghorol Statudol parthed y cynnig yma. Defnyddiwyd y wybodaeth greiddiol yma drwy gorff yr papur ymgynghorol statudol. |
| 9.18 | Dylai costau ymestyn, ailadeiladu a cludiant fod ar gael i pawb fel y gall gymariaethau teg gael ei gwneud | I | Mae'r wybodaeth yma ar gael ar dudalen 25 (pwynt 5.10.2) o'r ddogfen Ymgynghorol Statudol ac ar gael hefyd o fewn adroddiad Bwrdd y Cyngor dyddiedig 11/10/11 ar wefan y Cyngor. Mae gwybodaeth manwl iawn i'w gweld hefyd yn y ddogfennaeth fel cyfeiriwyd yn y pwynt uchod (9.17). |
| 9.19 | Atebion i rai gwestiynau yn amwys, gan nodi mai "cyfrifoldeb y corff llywodraethu" fyddai llawer o faterion. Dylai fod canllawiau clir yn cael eu llunio ar gyfer y corff llywodraethu newydd er mwyn cynorthwyo'r corff i wneud penderfyniadau ac i roi arweiniad glir. | I | Mae cyfeiriad i rôl statudol y corff llywodraethu o fewn 3 pwynt yn y ddogfen ymgynghorol statudol. Mae'r Awdurdod yn cynorthwyo cyrff llywodraethu wrth iddynt weithredu eu dyletswyddau. Noda'r pwyntiau yn y ddogfen ymgynghorol statudol byddai hynny yn parhau ac yn enwedig gyda'r rhai sydd yn berthnasol/newydd wrth y cynnig yma.<br><br>Mae rôl corff llywodraethu ysgolion wedi eu bennu gan ddeddf gwlad ac ni all yr Awdurdod weithredu pwerau dros y materion hynny fel sydd wedi eu hamlygu yn y ddogfen ymgynghorol statudol. Byddai'r Awdurdod yn rhoi cymorth arferol i unrhyw corff llywodraethu fel yr arfer wrth i'r corff weithredu'r gofynion statudol sydd arno. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Dyma'r sylwadau sy'n y ddogfen ymgynghorol yn dangos y dyletswyddau hynny sydd yn nwylo cyfrifoldeb y llywodraethwyr:<br><br>"5.7.2 Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, wrth edrych ar y rhagolygon niferoedd mae'n debygol y byddai cyllideb ar gyfer 5 o athrawon cynradd (llawn amser) ar gyfer yr Ysgol Ardal yn ei chyfanrwydd. Mae union natur y cydweithio a rhannu staff rhwng dwy safle'r ysgol i'w drafod ymhellach ac yn fater fyddai angen sylw Corff Llywodraethol yr Ysgol Ardal. Bydd yr ysgol yn endid newydd, a bydd gofyn felly sefydlu Corff Llywodraethu newydd ynghyd ag offeryn llywodraethu gan ddilyn canllawiau a rheoliadau cyfredol. Bydd angen i'r Corff Llywodraethu newydd benodi'r Pennaeth a'r staff ar gyfer yr ysgol."<br><br>…<br><br>"7.5.2 Wrth sefydlu'r ysgol, bydd disgwyl i'r Corff Llywodraethu benodi staff ar gyfer yr ysgol. Bydd Gwasanaeth Personél y Cyngor ar gael i roi cymorth a chyngor i'r Corff a'r staff ynglŷn a'r broses."<br><br>…<br><br>"7.7.3 O greu'r Ysgol Ardal Aml-Safle bydd angen sefydlu Corff Llywodraethu, cyfansoddiad yr ysgol a phenodi staff. Mater i Gorff Llywodraethu'r Ysgol Ardal fydd y strwythur staffio. Fodd bynnag, awgryma'r Cyngor y dylai'r Ysgol Ardal glustnodi'r swyddi sy'n deillio o weithredu'r drefn newydd ar gyfer athrawon sydd yn gweithio o fewn y pedair ysgol yn y lle cyntaf, ac yna i ysgolion eraill dalgylch y Gader." |
| 9.20 | Dogfen ymgynghorol yn anwybyddu'r ffaith bod Ysgol Eglwys gyfagos sy'n gallu cymryd dalgylch Ysgol Machreth a chynnig le i bob un o'r disgyblion sydd yn mynychu Ysgol Machreth ar hyn o bryd | 1 | Mae'r ddogfen Ymgynghorol Statudol yn rhan 5.11.2 yn cyfarch y dewis sydd gan rieni o ran parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gyfagos â nodwedd grefyddol petai hynny yn ddymuniad ganddynt. Petai'r Awdurdod yn derbyn cais gan rhiant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Machreth byddai modd ystyried y cais hwnnw i fynychu'r Ysgol Ardal arfaethedig neu Ysgol Gynradd Dolgellau dan yr un telerau yn unol a dymuniad y rhiant. |
| | | | |
| **10** | **Cyffredinol** | | |
| 10.1 | Efallai dim angen gwybodaeth manwl am sut bydd yr ysgol ardal aml-safle'n gweithredu'n ymarferol yn y ddogfen | 1 | Rhagwelir yn 2013 byddai oddeutu 78 o ddisgyblion yn mynychu safle Brithdir o'r Ysgol Ardal tra rhagwelir oddeutu 23 yn mynychu safle Dinas Mawddwy. Bydd cyfleoedd amlwg yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymgynghorol ond debyg bydd niferoedd ar y ddau safle yn anghyfartal a bydd angen rhoi sylw manwl i faterion megis athrawon yn gweithio ar y ddau safle neu dod a disgyblion at ei gilydd ar gyfer addysg gorfforol a phrofiadau eraill (efallai pellter teithio yn erbyn hyn) | | codi o dro i dro ar gyfer dod a disgyblion at ei gilydd ar gyfer gweithgareddau priodol, tra yn fwy aml o bosib rhagwelir hefyd y byddai disgyblion yn elwa o arbenigeddau nifer fwy o staff addysgu fyddai'n gallu rhannu o'u harbenigedd i nifer fwy o ddisgyblion. |
| 10.2 | Wedi bod yn rhan o'r trafodaethau PAD a'r cynnig gerbron sydd yn gwneud y synnwyr gorau | 1 | |
| 10.3 | Cynnig er lles plant y dalgylch yn hytrach nag ystyried denu disgyblion o tu allan i'r dalgylch | 1 | Mae'r cynnig yn cael ei ddatblygu i ystyried y nifer o ddisgyblion fyddai'n debygol o fod wedi mynychu'r 4 ysgol yn unol a rhagolygon yr ysgolion eu hunain. |
| 10.4 | Cytuno gydag ad-drefnu ysgolion ond rhaid cael adnoddau gorau bosib i'r dyfodol | 1 | Mae'r cynnig yn datblygu safle ym Mrithdir gyda adeilad addas ar gyfer addysgu a dysgu yn y 21 Ganrif. |
| 10.5 | Edrych yn hyderus i'r dyfodol yn cefnogi'r cynnig cyffrous yma, ni allwn colli'r cyfle yma i cael addysg wledig o'r radd flaenaf yn y rhan yma o ddalgylch y Gader / Gobeithio bydd y cynnig yn llwyddiannus a gaiff ei weithredu erbyn 31 Awst 2013 | 8 | |
| 10.6 | Cyfnod cyffrous a cred bod ardal yn gallu bod yn esiampl i weddill Gwynedd – hyderus gall yr ysgolion cydweithio i sicrhau llwyddiant | 1 | |
| 10.7 | Gall ysgol ardal fodoli, gan ddefnyddio'r holl unedau, gyda Pennaeth teithiol, fel y gall pob ysgol fodoli gyda chymorth ychwanegol rhannu Pennaeth rhwng yr ysgolion? | 1 | Drwy'r Strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* mae'r Awdurdod yn nodi pwysigrwydd rôl Pennaeth ysgol wrth arwain a rheoli ysgol fel y gellir sicrhau addysgu a dysgu o'r radd flaenaf.<br>Yn wyneb hynny, un o brif amcanion y strategaeth ar draws y sir yw galluogi i benaethiaid dderbyn mwy o amser ar gyfer y dasg bwysig o arwain a rheoli gan ar hyn o bryd mewn nifer o ysgolion mae'r penaethiaid yn anorfod yn addysgu am gyfnod estynedig ar drael amser arwain a rheoli. Mae'n debygol y byddai'n anodd i un Pennaeth arwain a rheoli pedair ysgol wrth feddwl am y llwyth gwaith sy'n debygol o fewn y fath rôl. Yn ogystal byddai'n annymunol i weld pennaeth yn treulio cyfradd uwch o'u hamser yn teithio rhwng safleoedd daearyddol amrywiol ar drael defnyddio'r amser i arwain a rheoli neu i addysgu. |
| 10.8 | Beth ydi'r ystyriaeth bwysicaf gan y Cyngor? Arbed arian ynteu darparu addysg o'r safon orau? | 1 | Mae'r ddau yn ystyriaeth o fewn Strategaeth "*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*" ac yn ystyriaethau o fewn y ddogfen Ymgynghori Statudol. Mae'n rhaid i'r Cyngor bwyso a mesur nifer fawr o ystyriaethau wrth ad-drefnu ysgolion. Mae datblygu ysgolion sydd yn cyfarch yr ystyriaethau yma i gyd yn sicrhau gall ysgolion gynaliadwy gael eu datblygu a'u cynnal er mwyn sicrhau gallu darparu addysg o'r safon orau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.9 | Sefyllfa bresennol ddim yn gynaliadwy. | 1 | |
| 10.10 | Ysgol ardal yn gam ymlaen. | 1 | |
| 10.11 | Pwy sydd i ddweud i ba ysgolion fydd rhieni yn dewis anfon eu plant mewn amser i ddod. | 1 | Rhieni sydd a'r dewis i ba ysgol mae eu plant yn mynychu fel yr arfer (yn unol a bod lle yn yr ysgolion hynny). |
| 10.12 | Croesawu'r syniad o ysgol ardal | 1 | |
| 10.13 | Bechod na fu ad drefnu yn holl ddalgylch y Gader yr un pryd | 1 | Yn ystod trafodaethau yn y dalgylch, gwelwyd yr angen i edrych ar y dalgylch fesul rhan am y rhesymau canlynol:<br>• Lleoliad daearyddol ac amseroedd teithio<br>• Dymuniad lleol yn nodi na fyddai ysgol fawr wedi ei chanoli ar gyfer y dalgylch cyfan yn cael ei chefnogi<br>• Rhesymau datblygu safleoedd ac adeiladu<br>• Amcanion Strategaeth Ad-drefnu y Cyngor yn enwedig felly o ran sicrhau datblygu ysgolion i fod yn sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol.<br><br>Penderfynwyd fod angen blaenoriaethu sefyllfa ochr ddwyreiniol o ddalgylch Y Gader am y rhesymau canlynol:<br>• 4 ysgol yn yr ardal yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio Mae cyfanswm y swm ychwanegol hwn yn £111,616 rhwng y 4 ysgol<br>• Dyrennir cyfanswm o £593,916 i'r 4 ysgol yn y rhan yma o dalgylch Y Gader yn 2011/12. Mae hyn gyfystyr â £5883 fesul disgybl ar gyfartaledd, Mae amrediad rhwng ysgolion o £3910 (Brithdir) i £7519 (Ieuan Gwynedd). Amrediad cyfartaledd sirol am y cyfnod hwn ydyw £3,352.<br>• Rhagolygon niferoedd mewn 3 o'r ysgolion yn creu pryder.<br>• Nifer o lefydd gweigion (94 mewn nifer) - 43% o fewn y 4 ysgol neu 58% heb ystyried sefyllfa ysgol Brithdir. Mae hyn yn golygu, wrth ystyried llefydd gweigion ysgolion Ieuan Gwynedd, Llanfachreth a Dinas Mawddwy fod mwy o lefydd gweigion na sydd o blant yn mynychu'r ysgolion.<br>• Capasiti ysgol Brithdir yn orlawn (Mae 45 disgybl mewn ysgol â chapasiti i 38)<br>• Ysgol Dinas Mawddwy yn ddaearyddol ynysig ac yn darparu addysg ar gyfer ardal eang.<br>• Yn ogystal, ar y pryd roedd ansicrwydd ynglŷn a sefyllfa arweinyddiaeth 2 ysgol o ganlyniad i drosiant staff |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Roedd achos clir a'r angen i sicrhau sefydlogrwydd tymor hir i'r darpariaeth addysg yn yr ardal wledig yn rhan yma o'r dalgylch. |
| 10.14 | Dylid diystyru sylwadau yr aelod lleol | 2 | |
| 10.15 | Derbynwyd deiseb yn nodi:<br>"Deiseb yn erbyn yr ystyriaeth ad-drefnu ysgolion o fewn dalgylch ysgolion Brithdir, Dinas Mawddwy Ieuan Gwynedd ac Ysgol Machreth, a olyga y byddai Ysgol Machreth yn cau ar 31 Awst 2013." | 1 | Wrth dderbyn deiseb bydd Llywodraeth Cymru, a'r Cyngor yn ystyried canllawiau cylchlythyr 029/2009 a'r "Y Gyfraith, Rheoliadau a Chanllawiau ar Drefniadaeth Ysgolion yng Nghymru, 2010" ble nodir:<br><br>*"Yn yr un modd mae camargraff cyffredinol bod casglu corff mawr o wrthwynebwyr yn ddigonol i drechu cynnig. Ond nid refferendwm yw ymgynghoriad. A bod yn fanwl, dylai'r rhai sy'n cynnal ymgynghoriad osgoi'r rhoi argraff eu bod yn cynnig unrhyw ymrwymiad ymlaen llaw y bydd Awdurdod Lleol (neu gorff llywodraethu) yn cymryd ei rwymo gan ganlyniad pleidlais gyhoeddus – gan mai un yn unig o'r ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddod i benderfyniad yw hynny. Mae rhoi rhesymau effeithiol gerbron yn ystod yr ymgynghoriad yn bwysicach na nifer y bobl sy'n eu rhoi gerbron. Gan hynny fe all deiseb gyda 100 o lofnodion yn dweud, i bob pwrpas, 'nid ydym yn hoffi hyn' fod yn llai effeithiol nag un llythyr sy'n dangos diffyg gwirioneddol yn y cynigion.*" |

# Atodiad 3.2

# Dadansoddiad Ymgynghoriad Plant a Phobl Ifanc

**Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc**

Er mwyn casglu barn disgyblion yr ysgolion caiff eu heffeithio gan y cynnig, rhoddwyd y dewis i'r ysgol un ai lenwi holiadur arbennig oedd wedi ei lunio gan hwylusydd plant a phobl ifanc, neu drwy sesiwn efo hwylusydd arbenigol plant a phobl ifanc.

Penderfynodd yr ysgolion i gyd lenwi holiaduron a'u hanfon yn ôl i'r Adran Addysg. Eglurwyd wrth y plant fod newid yn gallu digwydd a gofynnwyd eu barn ar hynny. Holwyd y cwestiynau canlynol:

1) Sut ydych chi'n teimlo am hyn?
2) Beth sy'n eich poeni am hyn?
3) Beth ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf?
4) Beth ydy'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol?

| **Ysgol Brithdir**<br>**(Y Pennaeth wedi ysgrifennu ymateb ar ran disgyblion CA1)** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Oedran** | **Sylwadau** | **Nifer Sylwadau** |
| **1. Sut ydych chi'n teimlo am hyn?** | Dosbarth Babanod<br>Dosbarth Derbyn<br>(Bl. 1 a 2) | ☺<br>Roedd y plant wrth eu bodd gyda'r syniad o greu ysgol ardal yn y Brithdir. Roedden nhw'n gynhyrfus iawn. | Ymateb CA1 |
| | Blynyddoedd 3,4,5,6 | ☺<br>😐<br>☹<br><br>1. Edrych ymlaen i gael ysgol newydd.<br>2. Hapus fod Brithdir yn datblygu i fod yn ysgol fawr.<br>3. Rydw i'n hapus ein bod yn cael darn arall i'r ysgol a cae i chwarae arno.<br>4. Rydw i'n hapus bydd neuadd fawr a pedwar dosbarth.<br>5. Ddim yn siwr am y newid achos dwi'n hoffi'r ysgol fel mae ac yn hoffi enw'r ysgol.<br>6. Dwi'n hapus efo'r ysgol fel mae – dim rhy fawr a dim rhy fach.<br>7. Edrych ymlaen i gael ysgol fwy modern<br>8. Edrych ymlaen i gael mwy o ffrindiau, ond ddim eisiau colli'r hen rai.<br>9. Dwi ddim yn sicr sut fydd | 13<br>5<br>0<br><br>4<br>4<br>3<br>2<br>2<br>2<br>2<br>1<br>1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | pethau'n troi allan.<br>10. Edrych ymlaen i gael offer pren i anturio<br>11. Edrych ymlaen i gael mwy o athrawon.<br>12. Dwi'n teimlo'n gynhyrfus.<br>13. Edrych ymlaen i gael mwy o le yn yr ysgol newydd.<br>14. Beth fydd enw'r ysgol newydd? | |
| **2. Beth sy'n eich poeni am hyn?** | Dosbarth Babanod<br>Dosbarth Derbyn<br>(Bl. 1 a 2) | Dim sylwad | |
| | Blynyddoedd<br>3,4,5,6 | 1. Colli ffrindiau<br>2. Eisiau cadw cymeriad ysgol Brithdir.<br>3. Peidio gwahanu plant mawr a plant bach amser chwarae.<br>4. Poeni na fydd digon o arian<br>5. Poeni na fydd yr ysgol newydd ddigon mawr.<br>6. Dim byd<br>7. Poeni bod ein teulu bach ni yn mynd.<br>8. Ddim yn siwr am fod mewn ysgol efo mwy o blant<br>9. Dwi'n hoffi dosbarth bach<br>10. Ddim eisiau plant fod yn gas<br>11. Poeni am y plant newydd<br>12. Poeni fydd y dosbarthiadau newydd rhy fach<br>13. Poeni na fydd digon o blant i fynychu'r ysgol newydd | 7<br>6<br><br>4<br><br>4<br>3<br><br>3<br>1<br><br>1<br><br>1<br>1<br>1<br>1<br><br>1 |
| **3. Beth ydych chi'n edrych ymlaen ato fwyaf?** | Dosbarth Babanod<br>Dosbarth Derbyn<br>(Bl 1 a 2) | 1. Cael ysgol fwy gyda digon o le ym mhob dosbarth.<br>2. Cael cae i chwarae arno ac offer chwarae.<br>3. Cael lle addas i fwyta cinio ac i wneud addysg gorfforol.<br>4. Cael mwy o le i chwarae a gwneud gweithgareddau<br>5. Cael mwy o ffrindiau | Ymateb CA1 |
| | Blynyddoedd<br>3,4,5,6 | 1. Cael cae a parc chwarae<br>2. Ffrindiau newydd<br>3. Neuadd<br>4. Offer chwarae pren<br>5. Dosbarthiadau mwy<br>6. Mwy o blant<br>7. Athrawon newydd, da<br>8. Offer newydd<br>9. Ystafelloedd newydd | 18<br>12<br>9<br>8<br>7<br>5<br>3<br>3<br>2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 10. Bwyd neis<br>11. Enw newydd i'r ysgol<br>12. Cynhesrwydd<br>13. Cael ysgol newydd | 2<br>2<br>1<br>1 |
| **4. Beth yw'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol?** | Dosbarth Babanod Dosbarth Derbyn (Bl 1 a 2) | 1. Cael digon o le i chwarae a gwneud gweithgareddau.<br>2. Cael ysgol hapus.<br>3. Cael cae i chwarae ac offer.<br>4. Cael maes parcio diogel a digon o le ynddo | Ymateb CA1 |
| | Blynyddoedd 3,4,5,6 | 1. Addysg da<br>2. Ffrindiau da<br>3. Athrawon da<br>4. Bwyd da<br>5. Iechyd<br>6. Lle chwarae<br>7. Hapusrwydd<br>8. Digon o le<br>9. Gwres<br>10. Bod yn gyfeillgar<br>11. Offer<br>12. Diogelwch<br>13. Dosbarthiadau mawr<br>14. Iaith<br>15. Bod gan yr ysgol ddigon o arian | 18<br>12<br>12<br>9<br>6<br>4<br>4<br>4<br>4<br>3<br>2<br>2<br>1<br>1<br>1 |

| Ysgol Dinas Mawddwy | | | |
|---|---|---|---|
| | **Oedran** | **Sylwadau** | **Nifer Sylwadau** |
| **1. Sut ydych chi'n teimlo am hyn?** | Dosbarth Babanod Dosbarth Derbyn (Bl 1 a 2) | ☺<br>😐<br>☹<br>1. Rydw i'n hapus gyda'r ysgol fel hyn<br>2. Dydw i ddim eisiau dim newid<br>3. Byddwn yn cael mwy o ffrindiau<br>4. Byddai pethau gwahanol wedyn | 1<br>6<br>3 |
| | Blynyddoedd 3,4,5,6 | ☺<br>😐<br>☹ | 0<br>6<br>3 |
| **2. Beth sy'n eich poeni am hyn?** | Dosbarth Babanod Dosbarth Derbyn (Bl 1 a 2) | 1. Dim eisiau teithio'n bell i'r ysgol<br>2. Colli Athrawon<br>3. Dim yr un adnoddau yn y dosbarth | Ni chafwyd gwybodaeth niferoedd |
| | Blynyddoedd 3,4,5,6 | 1. Agwedd y plant newydd / Bwlio / Llai o ffrindiau / Colli ffrindiau / Nifer y plant newydd / Plant drwg newydd / Ofn plant newydd<br>2. Cael athrawon a staff gegin newydd<br>3. Plant yn teithio'n bellach i'r ysgol / Dim lle ar y bws mini i'r holl ddisgyblion<br>4. Lle fydd y plant tra mae'r adeiladu yn cael ei wneud?<br>5. Ofn mynd ar goll mewn ysgol fawr / Sŵn mewn ysgol fawr<br>6. Gymuned yn chwalu | 6<br>5<br>5<br>3<br>3<br>1 |
| **3. Beth ydych chi'n edrych ymlaen ato fwyaf?** | Dosbarth Babanod Dosbarth Derbyn (Bl 1 a 2) | 1. Chwarae gyda ffrindiau newydd<br>2. Os cael dosbarth newydd, cael gweld tu mewn iddi | Ni chafwyd gwybodaeth niferoedd |
| | Blynyddoedd 3,4,5,6 | 1. Ffrindiau newydd i allu gwneud timau mwy e.e. pêl droed/rygbi<br>2. Lle a pethau newydd<br>3. Dim eisiau newid<br>4. Cae chwarae newydd<br>5. Athrawon/Gogyddes/bwyd newydd<br>6. Mwy o dripiau | 5<br>4<br>3<br>2<br>2<br>1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **4. Beth yw'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol?** | Dosbarth Babanod Dosbarth Derbyn (Bl 1 a 2) | 1. Iard chwarae mawr tu allan<br>2. Cael cae chwarae<br>3. Pethau diddorol yn y dosbarth<br>4. Bod yn hapus gyda ffrindiau<br>5. Cael digon o ffenestri i weld allan<br>6. Cael cinio mewn neuadd gyda plant Mawr<br>7. Cyfrifiaduron<br>8. Dim traffig tu allan i fod yn saff | Ni chafwyd gwybodaeth niferoedd |
| | Blynyddoedd 3,4,5,6 | 1. Gwaith / Dysgu / Gwersi/ Addysg<br>2. Ffrindiau / Plant Cyfeillgar / Mwy o blant / Pawb yn hoffi ei gilydd<br>3. Athrawon da<br>4. Tawelwch / Gwrando<br>5. Teimlo'n saff<br>6. Neuadd a cae chwarae | 9<br><br>9<br><br>5<br>2<br>1<br>1 |

| Ysgol Ieuan Gwynedd | | | |
|---|---|---|---|
| | **Oedran** | **Sylwadau** | **Nifer Sylwadau** |
| **1. Sut ydych chi'n teimlo am hyn?** | Dosbarth Babanod<br>Dosbarth Derbyn<br>(Bl 1 a 2) | ☺<br>😐<br>☹<br><br>1. Hoffi chwarae ar iard a chae ysgol Ieuan Gwynedd | 1<br>0<br>3 |
| | Blynyddoedd 3,4,5,6 | ☺<br>😐<br>☹<br>1. Digon hapus | 3<br>4<br>1 |
| **2. Beth sy'n eich poeni am hyn?** | Dosbarth Babanod<br>Dosbarth Derbyn<br>(Bl 1 a 2) | 1. Ofnus – ddim yn hoffi sefyllfa newydd<br>2. Hoffi sefydlogrwydd<br>3. Poeni am y ffordd sy'n beryglus<br>4. Poeni lle mae'r tacsi'n mynd i barcio<br>5. Pawb yn poeni pwy fydd yn eu dysgu | Ymateb CA1 |
| | Blynyddoedd 3,4,5,6 | 1. Bwlio gan blant eraill<br>2. Bydd Mam a Dad yn gorfod mynd a ni yn y car, ni fyddwn yn gallu beicio i'r ysgol<br>3. Eisiau holl staff Ieuan Gwynedd ddod i Brithdir<br>4. Bydd plant yn "bossy" a ddim yn chwarae'n deg<br>5. Athrawes gas/newydd<br>6. Dim llawer o dir | 4<br>2<br><br><br>1<br><br>1<br><br>1<br>1 |
| **3. Beth ydych chi'n edrych ymlaen ato fwyaf?** | Dosbarth Babanod<br>Dosbarth Derbyn<br>(Bl 1 a 2) | 1. Gwneud ffrindiau newydd | Ymateb CA1 |
| | Blynyddoedd 3,4,5,6 | 1. Ffrindiau newydd<br>2. Athrawes normal<br>3. Ysgol fawr, braf<br>4. Llyfrau newydd<br>5. Gwaith newydd | 8<br>1<br>1<br>1<br>1 |
| **4. Beth yw'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol?** | Dosbarth Babanod<br>Dosbarth Derbyn<br>(Bl 1 a 2) | 1. Eisiau bod yn hapus yn yr ysgol<br>2. Eisiau athrawon neis<br>3. Eisiau iard fawr<br>4. Eisiau digon o le i chwarae | Ymateb CA1 |
| | Blynyddoedd 3,4,5,6 | 1. Cael digon i le i chwarae<br>2. Dewis bwyd<br>3. Cael digon o gyfrifiaduron | 6<br>5<br>5 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 4. Cael offer chwarae<br>5. Cael gardd<br>6. Cael athrawes llawn hwyl<br>7. Cael digon o stafelloedd<br>8. Cael athrawon da<br>9. Cael digon o doiledau<br>10. Cael digon o lyfrau<br>11. Cael digon o ddesgiau<br>12. Cael athrawon i ddysgu tablau<br>13. Papur lliwgar<br>14. Cael digon o athrawon<br>15. Cael stafelloedd arwahan | 4<br>4<br>2<br>2<br>2<br>1<br>1<br>1<br>1<br>1<br>1<br>1 |

| Ysgol Machreth<br>(Holiadur wedi ei gwblhau gan y Pennaeth gan grynhoi sylwadau'r ysgol gyfan) | | | |
|---|---|---|---|
| | **Oedran** | **Sylwadau** | **Nifer Sylwadau** |
| **1. Sut ydych chi'n teimlo am hyn?** | Ymateb ysgol gyfan | ☹<br>1. Pam cau ysgol Machreth a gadael Brithdir a Dinas Mawddwy<br>2. Mi fyddai wedi bod yn braf i fy mrawd gael mynychu ysgol Machreth efo fi<br>3. Mae'n drist gweld ein ysgol yn cau<br>4. Mae'r ysgol yma ers hir a da ddim isho iddi symud | Mae 22 disgybl ar y gofrestr ar hyn o bryd |
| **2. Beth sy'n eich poeni am hyn?** | Ymateb ysgol gyfan | 1. Ddim yn deg bo ni ddim yn cael bod yn Bl 6 yn ysgol Machreth<br>2. Bwlio achos mwy o blant<br>3. Be mae nhw'n mynd i neud efo'r adeilad?<br>4. Be os fyswn i ddim yn licio'r ysgol newydd?<br>5. Ella fyddai'n gorfod symud eto?<br>6. Swydd Mrs Williams | Mae 22 disgybl ar y gofrestr ar hyn o bryd |
| **3. Beth ydych chi'n edrych ymlaen ato fwyaf?** | Ymateb ysgol gyfan | 1. DIM BYD<br>2. Mwy o blant, ella bydd gormod<br>3. Ffrindiau newydd<br>4. Mwy o le<br>5. Mwy o Bl 6 fydd efallai yn well ar gyfer Ysgol Y Gader | Mae 22 disgybl ar y gofrestr ar hyn o bryd |
| **4. Beth yw'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol?** | Ymateb ysgol gyfan | 1. Addysg dda er mwyn cael swydd dda<br>2. Pobl a plant ffeind<br>3. Profiadau<br>4. Dim lot o drafferth – dim digwyddiadau mawr<br>5. Ffrindiau<br>6. Neb yn gas efo'i gilydd<br>7. Mwynhau – bod fel un teulu | Mae 22 disgybl ar y gofrestr ar hyn o bryd |